
# CYNLLUN CYNEFIN BETHESDA



*Celf Llechen Gerfiedig, Bryn Twrw, Bethesda*


Datblygwyd gan :

Mari Beynon Owen

Julia Thomason, Julia Thomason Associates

Rob Chambers, Chambers Conservation

**Cynnwys**

1. Crynodeb Gweithredol
2. Cyflwyniad
3. Demograffeg a Phroffil Economaidd
4. Cyd-destun Strategol
5. Prosiectau Adfywio
6. Proffil Twristiaeth
7. Isadeiledd a Gwasanaethau
8. Ymgynghori
9. Archwiliad o'r Gymuned
10. Asesiad Ymwelwyr
11. Adeiladau o'r Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol
12. Y Prif Heriau a'r Cyfleoedd
13. Casgliadau ac Argymhellion
14. Ffynonellau Ariannu Posib
15. Rhestr atodiadau:

    Atodiad 1: Rhestr o unigolion/mudiadau y cysylltwyd â nhw
    Atodiad 2: Cyflogaeth yn ôl sector
    Atodiad 3: Astudiaeth o Gyfleodd yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol [Dalenni 1 - 7]

## 1 Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cynllun Cynefin hwn yn cyd-fynd â datblygiad Cais Safle Treftadaeth Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, a'i ddau amcan yw:

- Cynyddu ymwybyddiaeth, balchder a dealltwriaeth o dreftadaeth gyfoethog y diwydiant llechi
- Hyrwyddo adfywiad cymdeithasol ac economaidd yr ardal.

Cynhaliwyd gwaith ymchwil cynradd ac eilaidd i hysbysu datblygiad y Cynllun, a oedd yn cynnwys:

- Adolygiad dogfennol a data o ddemograffeg a phroffil economaidd Bethesda, y cyd-destun strategol, prosiectau adfywio a phroffil ymwelwyr/twristiaeth
- Asesiadau manwl o isadeiledd y dref, a'r gwasanaethau, y ddarpariaeth gymunedol, y cynnig i'r ymwelydd, a'r amgylchedd adeiledig hanesyddol – gyda rhan o'r gwaith yma wedi ei gasglu o safbwynt yr 'ymwelydd cudd'
- Asesiad o gryfderau a gwendidau allweddol Bethesda, a'r heriau a'r cyfleoedd yma
- Adnabod y prif ffynonellau ariannu posib er mwyn gallu blaenoriaethu/mesur dichonoldeb prosiectau
- Casgliadau ac argymhellion, lle nodwyd y themâu ar gyfer datblygu Bethesda.

Ynghyd â'r Cynllun Cynefin, paratowyd Cynllun Gweithredu, sydd yn nodi ac yn blaenoriaethu prosiectau cyfredol ac arfaethedig, ynghyd ag adnoddau gofynnol, arweinydd prosiect a darpar bartneriaid. Mae hon yn ddogfen weithredol a gaiff ei diweddaru'n rheolaidd a'i hadolygu'n flynyddol gan Gyngor Gwynedd a'r budd-ddeiliaid. Adnabuwyd y prosiectau yn sgil ymgynghoriad gyda'r gymuned a budd-ddeiliaid.

Dyma grynhoi **prif ganfyddiadau ein hymchwil eilaidd**:

- Dengys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru fod incwm, tai, cyflogaeth, diogelwch cymunedol a mynediad i wasanaethau yn faterion o bwys ym Methesda, ond fod yr amgylchedd ffisegol yn cymharu'n dda gyda gweddill Cymru. Mae data o gyfrifiad 2011 yn dangos fod lefelau uwch na'r cyfartaledd o ddiweithdra ym Methesda.
- Mae Partneriaeth Ogwen wedi cyflawni nifer o brosiectau datblygu cymunedol, adfywio a chynaladwyedd amgylcheddol llwyddiannus ers cael ei sefydlu yn 2013, ac wedi cyflwyno allbynnau pendant i'r gymuned.
- Daeth yn amlwg mewn arolwg ar-lein (wrth ddatblygu Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd) fod angen mynd i'r afael â chyfleusterau i'r cyhoedd ac ymwelwyr, gan gynnwys atyniadau o safon i ymwelwyr; mynediad i isadeiledd a gwasanaethau, gan gynnwys parcio; ymddwyn yn gyfeillgar tuag at dwristiaid; siopa/cyfleoedd siopa.
- 2016 oedd y flwyddyn fwyaf llwyddiannus i'r sector dwristiaeth yng Ngwynedd, gyda gwariant o dros £1 biliwn, dros 7 miliwn o ymwelwyr, a chynnydd mewn gwario arian tu allan i fisoedd yr haf.
- Daw ymwelwyr i Wynedd oherwydd ei thirwedd, ei chefn gwlad a'i thraethau, yn ogystal â'r gweithgareddau awyr agored helaeth sydd yma. Datganodd 82% o ymwelwyr eu bod yn fodlon iawn gyda'u hymweliad, a dywedodd 98% y byddent yn debygol o ddychwelyd i Wynedd.

- Mae cymuned Bethesda yn elwa o weithgaredd dau fudiad cymunedol sydd wedi hen ennill eu plwyf. Rhwng 2013 a 2016 drwy Bartneriaeth Ogwen cafwyd effaith economaidd o £1,255,293, a chyfrannodd Ynni Ogwen £1,331,390, sydd o fudd mawr i weithgaredd datblygu cymunedol ac adfywio ym Methesda.

Dyma grynhoi **prif ganfyddiadau ein hymchwil cynradd**:

- Mae'n amlwg fod angen denu ymwelwyr, cynyddu prysurdeb, a gwella adnoddau a bywiogrwydd y Stryd Fawr. Adnabuwyd y blaenoriaethau a ganlyn i'w datblygu:
  - Gwella canol y dref; mynd i'r afael â dirywiad y drewed ac unedau siopau gwag
  - Edrych ar ffyrdd i ymestyn y cyfleoedd adloniant gyda'r nos – yn arbennig caffis/bariau/bwytai
  - Annog busnesau bach i gymryd rhan mewn gweithgaredd i wella'r dref a mentrau marchnata ar y cyd
  - Hyrwyddo a dehongli hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol y dref
  - Ymchwilio ffyrdd newydd o ddehongli a gofodau dehongli newydd
  - Ymchwilio casgliad unigryw Bethesda o gelf llechen gerfiedig a chanfod ffyrdd o ddehongli hyn
  - Sicrhau fod Bethesda yn elwa o weithgaredd cynyddol ynghlwm â phroses enwebiad safle treftadaeth y byd.
- Mae llif ymwelwyr i'r dref a thrwyddi yn gyfyngedig oherwydd prinder cyfleusterau i ymwelwyr, economi liw nos gwan, prinder llefydd parcio, trewedd sy'n dirywio, a gorddibyniaeth ar lety sylfaenol, rhad yng nghanol y dref. Mae'r nifer fach o ymwelwyr yn cael ei ategu gan y prinder adolygiadau ar-lein o'r dref ei hun; cyfyngir yr adolygiadau i'r ardal gyfagos a Zip World yn hytrach na Bethesda.

- Mae ein **casgliadau** yn deillio o'r dadansoddiad SWOT (a hysbyswyd gan ganfyddiadau'r ymchwil cynradd ac eilaidd), sy'n seiliedig ar y themâu a ganlyn fel blaenoriaethau adfywio:

  1. Gwella canol y dref
  2. Dehongli hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol y dref
  3. Yr amgylchedd adeiledig hanesyddol
  4. Cyfleusterau i ymwelwyr ac isadeiledd trafnidiaeth
  5. Cefnogi a hyrwyddo busnesau lleol
  6. Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae'r adroddiad yn **argymell** rhoi ystyriaeth bellach i'r prosiectau a ganlyn:

- Cynllun gwella canol y dref er mwyn mynd i'r afael â dirywiad y drewed
- Sefydlu cynllun bws gwennol trydanol sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddatblygu gan Bartneriaeth Ogwen
- Sefydlu cynllun diwifr cymunedol er mwyn darparu gwasanaeth diwifr ar Stryd Fawr Bethesda
- Ymchwilio ffyrdd o greu mynediad at lan yr afon a chreu cyswllt gwell rhwng y dref a'r afon
- Gwneud asesiad opsiynau ar brosiectau'r amgylchedd adeiledig wedi'u blaenoriaethu er mwyn gwarchod yr adeiladau o bwys hanesyddol i Fethesda
- Ymchwilio'r posibilrwydd o sefydlu gofod dehongli yn Siop Ogwen/Neuadd Ogwen

- Sefydlu prosiect ymchwil cynhwysfawr ar gelf llechi cerfiedig Bethesda
- Gwella cyfleusterau ac adnoddau i ymwelwyr yng nghanol y dref, a chynyddu'r economi fin nos.

## 2 Cyflwyniad

Datblygwyd y Cynllun Cynefin i gyd-fynd â datblygiad Cais Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer Ardal Llechi Gogledd Orllewin Cymru er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth, balchder a dealltwriaeth o dreftadaeth gyfoethog y diwydiant llechi ac i hyrwyddo adfywiad economaidd a chymdeithasol yr ardal.

Datblygwyd Chwarel Penrhyn yn niwedd y ddeunawfed ganrif gan Richard Pennant, Barwn Penrhyn yn ddiweddarach. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, hon oedd y chwarel fwyaf yn y byd, yn cyflogi oddeutu 3,000 o chwarelwyr. Hon yw'r chwarel lechi fwyaf ym Mhrydain yn dal i fod.

Enwyd y dref, a ddatblygodd o gwmpas y chwarel, ar ôl Capel Bethesda a agorwyd oddeutu 1821. Ar ei hanterth, yn 1901, roedd yma 5,281 o drigolion.

Agorwyd y lein fach, Rheilffordd Chwarel Penrhyn, rheilffordd ymyl haearn cynnar, ym 1801 i gludo llechi o'r chwarel i Borth Penrhyn ym Mangor.

Ym 1900, aeth chwarelwyr Bethesda ar streic, a barhaodd am dair blynedd, gyda chefnogaeth Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru. Hon oedd yr anghydfod hiraf yn hanes diwydiannol Prydain. Rhwygwyd y gymuned gan y blynyddoedd o galedi a brwydro.

O 1906 ymlaen defnyddiwyd 'Blondins', math o raffyrdd drwy'r awyr, i symud wagenni llawn cerrig o le i le. Heddiw mae atyniad Zip World yn cludo pobl ar hyd gwifrau sip 500 medr uwchben llyn y chwarel.

Bethesda yw cymuned fwyaf Gwynedd ond pedwar gyda phoblogaeth o 4,735, (ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

## 3 Demograffeg a Phroffil Economaidd

Mae gan Fethesda boblogaeth o 4,735; mae yma ddwy ward, Gerlan ac Ogwen (a thair Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is: Gerlan, Ogwen 1, ac Ogwen 2, gweler data isod). Er mwyn rhoi trosolwg o gyd-destun economaidd Bethesda, rhaid dadansoddi'r data (ffynhonnell: cyfrifiad 2011) o bob ward, ac fe'u cyflwynir fesul un yn Atodiad 2. Ond, dyma grynodeb byr:

- Mae gan Gerlan boblogaeth o 2,380, â 1,738 (73%) o oedran gweithio (16-64); mae gan Ogwen boblogaeth o 2,355, â 1,717 (73%) o oedran gweithio (16-64)
- Mae cyfran llawer uwch na'r cyfartaledd (65% yng Ngwynedd a 66% yng Nghymru) o drigolion Gerlan (74%) ac Ogwen (71%) yn weithgar yn economaidd; darperir mwy o wybodaeth ar y sectorau cyflogaeth yn Atodiad 2
- Dynodir 26% o drigolion Gerlan a 29% o drigolion Ogwen yn anweithgar yn economaidd, sydd yn sylweddol yn is na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (35%) a Chymru (34%); yng Ngerlan ac Ogwen mae 7% yn ddi-waith, sydd yn uwch na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (5.5%) a Chymru (6.5%).
- Mae canran o drigolion Gerlan (18%) ac Ogwen (19%) a ddynodir yn sâl tymor hir/anabl yn uwch na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (12.5%), ond yn cymharu gyda'r cyfartaledd yng Nghymru (18%)
- Mae gan Gerlan gyfran is na'r cyfartaledd (20%) o oedolion (oed 16+) heb gymwysterau; mae'r ffigwr yn uwch yn Ogwen (25%), sydd yn debyg i'r cyfartaledd yng Ngwynedd (23%) a Chymru (26%).
- Yng Ngerlan, mae perchenogaeth tai (70%) yn uwch na'r cyfartaledd (66% yng Ngwynedd a 68% yng Nghymru), ond mae'n is na'r cyfartaledd yn Ogwen (62%). Mae'r lefelau hyn yn cyfateb i nifer yr aelwydydd sydd yn rhentu tai cymdeithasol (12% yng Ngerlan a 21% yn Ogwen) ac yn breifat (18% yng Ngerlan, 17% yn Ogwen).
- Yn Ogwen, mae cyfran yr aelwydydd heb gar (27%) yn uwch na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (21%) ac yng Nghymru (23%), ond mae'r gyfran yn sylweddol is yn Gerlan (17%).
- Mae 84% o boblogaeth Gerlan mewn iechyd da/da iawn sydd yn uwch na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (81%) a Chymru (78%), ac mae'n cymharu'n dda gydag Ogwen (81%), ac yn gymesur gyda'r cyfartaledd yng Ngwynedd. Mae 11% o boblogaeth Gerlan a 13% yn Ogwen mewn iechyd gweddol, y ddau yn is na Gwynedd (14%) a Chymru (15%); ac mae 4.5% yn Gerlan a 6% yn Ogwen mewn iechyd gwael, sy'n cymharu â Gwynedd (5%), ond yn is na chyfartaledd Cymru (8%).
- O ran dosbarth cymdeithasol, mae cyfran uwch na'r cyfartaledd o bobl broffesiynol a rheolwyr (31%) yng Ngerlan, ond yn Ogwen (27%) mae'n gymesur â chyfartaledd Gwynedd a Chymru (27%). Mae gan 30% o boblogaeth Gerlan ac Ogwen sgiliau, sydd yn gymesur â chyfartaledd Gwynedd a Chymru. Mae'r gyfran o'r boblogaeth yng Ngerlan (26.5%) a chanddynt ddim/rhai sgiliau yn cyfateb i'r cyfartaledd yng Ngwynedd (ac yn ychydig yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, 29%), ond mae'r gyfran yn Ogwen (31%) yn uwch. Mae 13% of boblogaeth Gerlan a 12% yn Ogwen yn fyfyrwyr/ arall, sydd yn is na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (17%) a Chymru (14.5%).

Prif gyflogwyr yr ardal yw:

- Welsh Slate - mae Welsh Slate/Breedon yn berchen ar Chwarel y Penrhyn ac yn cyflogi 170 o bobl ar draws eu safleoedd (gan gynnwys nifer o chwareli yng Ngogledd Cymru). Teimlir fod y cais STB yn debygol o gynyddu proffil cynnyrch ansawdd uchel Welsh Slate a chael effaith gadarnhaol ar ei weithrediadau masnachol
- Zip World, Chwarel Penrhyn – atyniad sydd wedi ei leoli o fewn y chwarel; hon, sef Velocity 2, yw gwifren sip gyflymaf y byd, 500m uwchben llyn y chwarel.
- Little Greene Paint Company – cwmni cynhyrchu paent annibynnol Prydeinig sydd wedi ymroi i gynhyrchu paent a phapur wal o ansawdd uchel ac sy'n amgylcheddol ac yn gymdeithasol gyfrifol. Mae gan y cwmni, a sefydlwyd ym 1773, bartneriaethau gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac English Heritage.
- CL Jones - cwmni masnachu coed a deunyddiau adeiladu teuluol a sefydlwyd ym 1982. Fe'i cychwynnwyd ar y safle ym Methesda ac mae pum safle arall yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy.
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – yn cyflogi staff yng Nghastell Penrhyn, castell o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda gerddi helaeth; hefyd wardeniaid gwarchodfeydd natur lleol.

<u>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru</u>

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 yw mesuriad swyddogol amddifadedd cymharol mewn ardaloedd llai yng Nghymru; gelwir y rhain yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) ac mae ganddynt boblogaeth o 1,600 ar gyfartaledd. Gan fod pob ACEHI yn debyg, mae'n haws gwneud dadansoddiad cymharol. Cyflwynir y Mynegai fel cyfres o rengoedd; mae rheng 1 yn adlewyrchu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, a rheng 1909 yn cynrychioli'r un lleiaf difreintiedig. Mae hyn yn galluogi i ni ddeall pa ardaloedd sydd yn fwy neu'n llai difreintiedig, ond nid maint y gagendor.


Yn Atodiad 2 rydym yn cyflwyno data sy'n dangos sut mae'r ardaloedd ACEHI ym Methesda yn cymharu ag ardaloedd eraill ledled Cymru a Gwynedd. Dengys y tabl, yr hyn sydd o bwys yn wahanol rhwng y tair ACEHI ond bod yr amgylchedd ffisegol yn y tair ACEHI (er ddim cystal yn Ogwen 1) yn cymharu'n dda gydag ardaloedd yng ngweddill Cymru. Mae'r tablau hefyd yn dangos fod lefelau tebyg o amddifadedd lluosog yn y tair ACEHI a sgôr amddifadedd lluosog islaw 50%.


Dengys y data mai incwm a mynediad i wasanaethau yw meysydd mwyaf arwyddocaol amddifadedd yng Ngerlan; mai mynediad i wasanaethau ac incwm yw'r pwysicaf yn Ogwen 1; ac mai diogelwch cymunedol, tai a chyflogaeth yw'r meysydd pwysig yn Ogwen 2.


Gosod ACEHI yn ôl eu rheng yng Ngwynedd

Dengys y siartiau isod reng pob ardal yng Nghymru yn ôl mesuryddion unigol. Fel nodwyd uchod, cyflwynir y data mewn mynegai yn wrthol; hynny yw, po isaf y sgôr, po uchaf yr amddifadedd ac i'r gwrthwyneb, po uchaf y sgôr, po isaf yr amddifadedd. Er enghraifft, mae'r siart isod yn dangos fod Ogwen 2 ar reng isel ar gyfer diogelwch cymunedol, sy'n golygu ei fod ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (yn y 10% uchaf) yng Nghymru.

Mae'r siartiau yn galluogi i ni ddeall sut y mae'r lefelau o amddifadedd yn y tair ACEHI ym Methesda yn cymharu gyda gweddill Cymru.






## 4 Cyd-destun Strategol

Mae cyflwyniad mwy manwl o'r cyd-destun strategol yn y ddogfen *Cyd-destun Strategol ar gyfer Ardal y Llechi* sydd ar wahân. Ond dyma grynodeb o'r polisïau sy'n dylanwadu ar weithgareddau yn yr ardal Bethesda:

**Cenedlaethol:**

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru
- Twristiaeth 2020 (Partneriaeth ar gyfer Twf), Llywodraeth Cymru
- Ffordd Cymru, Croeso Cymru
- Blynyddoedd Thematig, Croeso Cymru
- Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru, Llywodraeth Cymru
- Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol i Gymru, Cadw
- Ysbrydoli: Ein Strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru, Cyngor Celfyddydau Cymru

**Rhanbarthol/Sirol:**

- Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Gwella Cyngor Gwynedd 2018 – 2023, Cyngor Gwynedd
- Datganiad Llesiant Cyngor Gwynedd, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Celfyddydau Gwynedd, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol, Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

**Lleol:**

- Ein Heconomïau lleol; Cymunedau'n Adeiladu Ffyniant; Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
- Cynllun Economaidd Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru 2016 – 2020, Cyngor Gwynedd
- Strategaeth Partneriaeth Ogwen, 2018 – 2021

- Astudiaeth Gwella Canol Tref Bethesda, 2013, Cyngor Gwynedd

## 5 Prosiectau Adfywio

### Partneriaeth Ogwen

Mae Partneriaeth Ogwen yn fenter gymdeithasol a sefydlwyd yn 2013 gan Gynghorau Cymuned Bethesda, Llanllechid a Llandygai . Mae'n cyfrannu incwm cynaliadwy (yn gyfnewid am  wasanaeth clercio gan y cynghorau) sy'n cael ei gyflenwi drwy grantiau amrywiol ar gyfer gweithgareddau penodol.

Gweledigaeth Partneriaeth Ogwen yw creu sefydliad cymunedol cryf ac arloesol er budd cymunedau Dyffryn Ogwen. Mae cynaliadwyedd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn sylfaen i'w holl waith. Dyma amcanion y cynllun busnes sy'n berthnasol i Fethesda:

- Gwarchod a chreu ffrydiau incwm newydd
- Blaenoriaethu prosiectau sy'n creu budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gan ganolbwyntio ar drosglwyddo asedau cymunedol, prynu asedau newydd i greu incwm, a phrosiectau sy'n gwneud ein cymuned yn fwy gwydn a chydnerth.

Mae adeilad Partneriaeth Ogwen ar Stryd Fawr Bethesda hefyd yn gartref i'r Heddlu, Cyngor ar Bopeth, Grŵp Tai Cynefin, Wardeniaid Ynni, Nest ac Energy Local, yn ogystal â'r cynghorau cymuned. Mae'n berchen ar, ac yn rheoli, pedair uned breswyl a chwe uned fasnachol ar y Stryd Fawr, sydd yn cael eu gosod i gwmnïau lleol a mentrau cymdeithasol; gosodir y rhent yn is na chyfartaledd pris rhent preifat.

Prosiectau Cymunedol

- **Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen:** mae Partneriaeth Ogwen wedi arwyddo les tair blynedd ar y Llyfrgell.
- **Canolfan Cefnfaes:** canolfan gymunedol yng Nghefnfaes; clustnodwyd arian i gyflogi Rheolwr Prosiect er mwyn llywio datblygiad y ganolfan.
- **Maes Parcio Gerlan:** posibilrwydd o ddatblygu Maes Parcio Gerlan gyda Chyngor Cymuned Bethesda.
- **Siop Ogwen:** mae Partneriaeth Ogwen yn gwneud gwaith gweinyddol, rheoli a marchnata ar ran Siop Ogwen, gan gyfrannu at y weledigaeth ehangach o adfywio'r Stryd Fawr.

Prosiectau Cynaliadwyedd

Mae'r Dyffryn Gwyrdd yn cyfuno'r amrywiol fentrau cynaliadwy sydd yn digwydd yng nghymunedau Dyffryn Ogwen:

- **Cyd Ynni – Ynni Lleol:** mae Partneriaeth Ogwen yn bartner lleol yn Ynni Cymunedol Cymru ar gyfer datblygu'r cynllun Ynni Lleol ac mae'n cyflogi Swyddog Ynni Lleol am un diwrnod yr wythnos i godi ymwybyddiaeth o Ynni Lleol, arbed ynni a chynaliadwyedd.
- **Ynni Ogwen:** cynllun ynni dŵr a gychwynnwyd gan Bartneriaeth Ogwen a sefydlodd gynllun cyfranddaliadau cymunedol hynod o lwyddiannus. Nawr yn gwmni ar wahân, mae'n aelod o

gonsortiwm rhanbarthol o fudiadau ynni dŵr cymunedol. Mae'n bartner yn natblygiad canolfan cynaladwyedd rhif 27 y Stryd Fawr.

- **Canolfan Cynaliadwyedd 27 Stryd Fawr:** derbyniodd Partneriaeth Ogwen grant o £25,000 gan Gronfa Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru tuag at brynu adeilad ar y Stryd Fawr i'w ddefnyddio fel canolbwynt ar gyfer gweithgaredd amgylcheddol a chynaliadwyedd Partneriaeth Ogwen.
- **Prosiect Trafnidiaeth a Cheir Trydan Cymunedol:** datblygwyd y prosiect hwn yn dilyn ymgynghoriad gyda'r gymuned a budd-ddeiliaid mewn ymateb i gwynion am broblemau cludiant cyhoeddus a chymunedol yn Nyffryn Ogwen. Adnabuwyd y posibilrwydd o ddatblygu cynllun trafnidiaeth gymunedol, yn ddelfrydol wedi ei yrru gan drydan adnewyddadwy lleol.
- **Egin Ogwen**: mae Partneriaeth Ogwen yn trefnu digwyddiadau twf y gymuned gyda gwirfoddolwyr lleol a'r bwriad yw datblygu'r prosiect hwn ymhellach fel rhan o weithgareddau'r Ganolfan Gynaliadwyedd.

<u>Prosiectau Datblygu Twristiaeth</u>

Mae Partneriaeth Ogwen yn datblygu ac yn trefnu cyfres o brosiectau i gryfhau'r ddarpariaeth leol i dwristiaid, ac yn helpu hyrwyddo a marchnata busnesau a chymdeithasau lleol. Ei nod yw datblygu strategaeth gyfathrebu i hyrwyddo Bethesda, a busnesau lleol, treftadaeth a diwylliant y dref. Dyma grynodeb o'r cynlluniau:

- **Di-wifr Cymunedol:** Sicrhaodd gefnogaeth ariannol gan gynllun Gwynedd Ddigidol i ddatblygu cynllun diwifr cymunedol a fyddai'n rhoi mynediad i rwydwaith diwifr am ddim i ymwelwyr, trigolion a busnesau ar Stryd Fawr Bethesda.
- **Gwefan Dyffryn Ogwen:** mae gwefan i hyrwyddo Dyffryn Ogwen yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Bydd y wefan yn hyrwyddo'r ardal, busnesau lleol a'r cynnig twristiaeth/diwylliannol.
- **Taflen Darganfod Dyffryn Ogwen:** taflen sydd yn tywys y darllenydd ar hyd wyth cylchdaith yn yr ardal. Dosbarthwyd y daflen i fusnesau a chanolfannau twristiaeth yn yr ardal.

Mewn dadansoddiad diweddar o'r elw cymdeithasol o fuddsoddiad Partneriaeth Ogwen ac Ynni Ogwen fel modd o fesur effaith eu gweithgaredd ar y gymuned leol rhwng 2013 a 2016, canfu:

- Fod gan Bartneriaeth Ogwen gymhareb GCSG o 4.71:1, sydd yn golygu fod pob £1 a fuddsoddwyd yn ildio £4.71 o fudd cymdeithasol i'r gymuned.
- Fod cymhareb GCSG Ynni Ogwen yn 2.90:1, felly bod pob £1 a fuddsoddir yn cyfrannu £2.90 i'r gymuned.

Dangoswyd hefyd yn yr astudiaeth fod gweithgareddau'r ddau fudiad wedi cael effaith economaidd sylweddol ar y gymuned. Codwyd yr arian i fuddsoddi £459,100 yng nghynllun ynni dŵr Ynni Ogwen trwy werthu cyfranddaliadau, a daeth y rhan fwyaf o'r buddsoddiad gan y gymuned leol. Rhwng 2013 a 2016, cododd Partneriaeth Ogwen incwm o £418,431 (grant cymunedau cynaliadwy: £204,502; grantiau eraill: £75,054; cynghorau cymuned:

£77,266; incwm rhent: £61,609). Cafodd hyn effaith economaidd o £1,255,293 a gynhyrchwyd ar gyfer y gymuned leol.

**Hwb Cymunedol Clwb Rygbi Bethesda**

Agorwyd adeilad newydd Clwb Rygbi Bethesda ym mis Mawrth 2019 fel canolfan gymunedol, Mae'n gyfleuster pwrpasol i'w gymuned sydd yn diwallu anghenion y gymuned, busnes a'r sector chwaraeon.

Mae nawr yn chwarae rhan bwysig fel canolbwynt i fentrau llesiant a chenedlaethau'r dyfodol yn yr ardal. Sicrhawyd arian grant gan y Gronfa Loteri Fawr (£250,000) a Chronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (£128,000), ynghyd â chyfraniadau gan Gist Gwynedd a noddwyr y Clwb, Peninsula Home Improvements.

Mae saith busnes newydd wedi ymgartrefu yn yr adeilad, gan gynnwys homeopath a ffisiotherapydd. Mae ugain o fudiadau lleol, gan gynnwys yr Urdd, yn defnyddio'r adnoddau; ac amcangyfrifir fod 2,000 o bobl yn defnyddio'r adnoddau yn flynyddol.

**Prosiect Partneriaeth Tirwedd y Carneddau**

Datblygwyd prosiect Tirwedd y Carneddau mewn partneriaeth rhwng nifer o fudiadau lleol: Cwmni Adfywio Abergwyngregyn, Cadw, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd, Menter Iaith Conwy, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Y Bartneriaeth Awyr Agored, Cymdeithas Hanes Penmaenmawr, Eryri Bywiol, Cymdeithas Eryri. Mae Partneriaeth Ogwen yn cynrychioli ardal Bethesda sydd yn gweithredu fel un o'r pyrth i'r gadwyn o fynyddoedd.

Y nod yw datblygu prosiect i helpu pobl i ddarganfod, cofnodi, gofalu am a dathlu'r Carneddau, y mynyddoedd, cyrion yr aneddleoedd a llethrau'r dyffrynnoedd, trwy ddarparu ffyrdd newydd o ddysgu am yr ardal, gwella gwybodaeth, digwyddiadau a gweithgareddau, adnoddau i ysgolion a phobl ifanc, hyfforddiant sgiliau, mynediad i welliannau a grantiau ar gyfer gwaith cadwraeth tirwedd.

Mae'r bartneriaeth, a arweinir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, wedi gwneud cais am £1.92 miliwn gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i gyflwyno'r prosiect am bum mlynedd rhwng 2019 a 2024.

## 6 Proffil Ymwelwyr/Twristiaeth

Dyma grynodeb o broffil ymwelwyr i Wynedd i roi gwell dealltwriaeth o'r mathau o ymwelwyr y mae Bethesda yn eu denu ar hyn o bryd ac y gallai eu denu, yn ogystal â'r cymhelliant a'r rhesymau dros ymweld.

Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020

Prif amcanion Cynllun Rheoli Cyrchfan 2013-2020 yw:

- ymestyn y tymor ymwelwyr
- cynyddu gwariant gan ymwelwyr

- gwella ansawdd profiad yr ymwelydd
- gwella’r cymathiad rhwng twristiaeth ag agweddau eraill o fywyd
- gwella'r amgylcheddau naturiol, adeiledig a diwylliannol
- adeiladu a chynnal a chadw adeiladau cyhoeddus a mwynderau o ansawdd
- darparu swyddi o ansawdd, sy’n talu'n dda drwy gydol y flwyddyn, a datblygu sgiliau.

Cynhaliwyd arolwg ar-lein fel rhan o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan ac, er mai ar gyfer Gwynedd gyfan y mae’r canfyddiadau, mae'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd yn berthnasol i Fethesda. Gellir nodi’r rhain fel y prif faterion sydd angen ystyriaeth:

- Gwell cyfleusterau i ymwelwyr
- Gwell adnoddau cyhoeddus e.e. goruwchadeiledd ymwelwyr, megis llety gwyliau a gweithgareddau penodedig
- Elfennau isadeiledd, gan gynnwys ffyrdd a mannau cyhoeddus eraill
- Atyniadau o ansawdd i ymwelwyr
- Darpariaeth parcio
- Gwell gwasanaethau lleol
- Ymddwyn yn fwy cyfeillgar tuag at ymwelwyr
- Gwell siopau a gwell cyfleoedd i siopa

Dylai unrhyw ddatblygiad twristiaeth yn ardal Bethesda roi ystyriaeth i'r amcanion a materion a nodwyd uchod, er mwyn sicrhau fod unrhyw brosiect ar lefel leol yn dylanwadu ar flaenoriaethau strategol y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan.

<u>Arolwg Ymwelwyr Cymru, 2013; anghenion ymwelwyr</u>

Dyma **brif ganfyddiadau’r** arolwg o anghenion ymwelwyr a gynhaliwyd yn 2013 (fel rhan o Arolwg Ymwelwyr Cymru):

- Ychydig iawn o wibdeithiau dydd sy’n cael eu trefnu; adroddodd 69% o ymwelwyr dydd i Gymru a holwyd nad oeddynt wedi defnyddio unrhyw wybodaeth wrth gynllunio eu trip i Gymru
- Defnyddiodd 57% o ymwelwyr a oedd yn aros yn y DU wybodaeth ar-lein i gynllunio eu hymweliadau, sy'n cymharu â 18% a ddefnyddiodd ffynonellau ddim ar-lein. Ond, mynegodd nifer o gyfranogwyr bwysigrwydd deunyddiau wedi’u hargraffu ystod eu hymweliad. Defnyddiodd 38% o ymwelwyr i Gymru a oedd yn aros yn y DU ffynonellau ddim ar-lein yn ystod eu hymweliad, sy'n cymharu â 17% a ddefnyddiodd ffynonellau ar-lein.
- Y dylanwadau pwysicaf ar ddenu ymwelwyr newydd i ardal yw argymhellion a phrofiadau ffrindiau/perthnasau/cyd-weithwyr
- Mae pobl leol, yn arbennig darparwyr llety, yn chwarae rhan bwysig o ran dylanwadu ar le mae ymwelwyr yn dewis mynd. Mae ymwelwyr yn ceisio eu cyngor nhw, ac mae ganddynt fwy o ffydd ynddynt hwy nac mewn adolygiadau ar-lein am eu bod yn byw yno. Felly, mae llawer o ymwelwyr yn defnyddio gwybodaeth leol i wirio eu rhestr gweithgareddau a baratowyd, neu i gael syniadau newydd.

Mae'n amlwg fod deunyddiau marchnata a gwybodaeth ar-lein a ddim ar-lein yn bwysig i ymwelwyr ac mae'r canfyddiadau hyn yn bwysig wrth adolygu presenoldeb a phroffil ar-lein Bethesda. Mae'r un peth yn wir wrth gynllunio ymgyrchoedd marchnata i'r dyfodol ac wrth ddatblygu deunyddiau hyrwyddo/wedi'u hargraffu. Gellid ystyried sefydlu cynllun Llysgenhadon gyda phobl leol yn gweithredu fel Llysgenhadon/tywyswyr/ffynonellau gwybodaeth i ymwelwyr.

Arolwg Ymwelwyr Cymru, 2016

Dyma'r **prif ganfyddiadau am broffil ymwelwyr â Gwynedd** a gyflwynwyd gan Beaufort Research yn Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016:

- Mae mwyafrif yr ymwelwyr â Gwynedd yn byw yn Lloegr (60%)
- Mae canran yr ymwelwyr sy'n aros dros nos yng Ngwynedd yn uwch na'r cyfartaledd, ac mae lawer yn uwch na chanran yr ymwelwyr â Chymru gyfan (37%) sy'n dod o weddill y DU
- Mae oddeutu traean (37%) yr ymwelwyr yn byw yng Nghymru o'i gymharu â 59% o'r holl ymwelwyr â Chymru; mae 3% yn byw dramor, o gymharu â 4% ar gyfartaledd yng Nghymru gyfan
- Mae Gwynedd yn denu canran uwch o ymwelwyr mwy cefnog ABC1[1] (48%) o'i gymharu â holl safleoedd Cymru (32%)
- Yn ôl yr arolwg, mae dros draean yr ymwelwyr (35%) yn ymweld gyda phlant (â'r mwyafrif ohonynt yn blant bach)
- Mae cwta draean (30%) yr ymwelwyr yn gyplau
- Roed mwyafrif sylweddol (71%) yr ymwelwyr â Gwynedd (o'r rhai a holwyd) wedi dod am y diwrnod, sydd yn llawer is na'r canran ar gyfer Cymru gyfan, sef 88%.
- Mae mwyafrif llethol yr ymwelwyr sy'n aros dros nos yn byw yn Lloegr (82%), a nifer cyfartalog y nosweithiau arhoswyd yng Ngwynedd yw 5.8, o'i gymharu â 6.0 ar draws Cymru

**Y rhesymau dros ymweld, a'r gweithgareddau a wnaed:**

- Nododd 73% o ymwelwyr â Gwynedd mai'r rheswm am ymweld oedd cael mwynhau'r dirwedd/cefn gwlad/traethau, sydd yn ganran uwch nac ar gyfer Cymru gyfan (56%)
- Roedd ymwelwyr â Gwynedd hefyd yn llawer mwy tebygol o fod wedi dod i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored o'i gymharu â holl ardaloedd Cymru (41% yn hytrach na 25%)
- Y tri gweithgaredd mwyaf poblogaidd ymysg rhyw draean o'r ymwelwyr â'r rhanbarth oedd mynd i'r traeth (34%), ymweld yn gyffredinol (33%) a mynd i barciau gwledig (31%).

[1] Mae ABC1 a C2DE yn raddau cymdeithasol bras; mae chwe categori (A, B, C1, C2, D a E) ac fe'u defnyddir gan Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol y DU. Dyma'r categoriau:
AB – galwedigaethau rheoli, gweinyddu a phroffesiynol canolradd ac uwch
C1 – galwedigaethau goruchwylio,clerigol, rheoli, gweinyddu a phroffesiynol is
C2 – galwedigaethau gwaith llaw medrus
DE – galwedigaethau gwaith llaw rhanol fedrus a di-grefft; y di-waith a galwedigaethau raddfa isaf

**Boddhad, ail-ymweld ac argymell:**

- Yn gyffredinol, roedd ymwelwyr â Gwynedd yn hynod o fodlon gyda'u hymweliad â Chymru, gydag wyth o bob deg (82%) yn rhoi sgôr o 9 neu 10 (allan o 10) i Gymru fel cyrchfan
- Roedd tripiau ymwelwyr i/yng Nghymru y tu hwnt i ddisgwyliadau ychydig dros draean o ymwelwyr â Gwynedd - gyda 37% yn datgan fod yr ymweliad yn well na'r disgwyl
- Dwedodd yr holl ymwelwyr â Gwynedd bron y byddent yn debygol o ddychwelyd i Gymru yn y dyfodol (98%); gyda 92% yn bendant am ddychwelyd a 6% yn debygol o ail-ymweld.

Nifer yr ymwelwyr a'r effaith economaidd cysylltiol

2016 oedd y flwyddyn fwyaf llwyddiannus hyd yma i'r sector dwristiaeth yng Ngwynedd (data 2016 yw'r mwyaf diweddar sydd ar gael). Gwariodd twristiaid dros £1 biliwn yn yr economi leol. Ynghyd â chynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn ystod y prif dymor gwyliau, gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Ebrill o'i gymharu â blynyddoedd cynharach.

Ymwelodd dros 7 miliwn o bobl â Gwynedd yn 2016, sef cynnydd o 3.2% ar y flwyddyn flaenorol; roedd 3.5 m o'r rhain yn aros yma (cynnydd o 5.5% ar 2015), a'r 3.6 m arall yn ymweld am y dydd.

O ran yr effaith economaidd, cafwyd gwariant uniongyrchol £0.75 biliwn yn 2016 (cynnydd o 4.7% ar y flwyddyn flaenorol). Canlyniad hyn oedd effaith economaidd o dros £1 biliwn (cynnydd o 4.5% ar 2015). Yn 2016, cyflogwyd 12,725 yn uniongyrchol yn sgil twristiaeth (cynnydd o 1.6% ar 2015); a chyrhaeddodd cyfanswm cyflogaeth (FTE) 15,557 (cynnydd o 2.1% o'r flwyddyn flaenorol). (Ffynhonnell: data STEAM).

Dyma nifer ymwelwyr a ddaeth i'r atyniadau a'r safleoedd allweddol hyn ym Methesda yn **2017/18:**

- Ymwelodd 109,395 o bobl â Chastell Penrhyn yn 2017 (gostyngiad o 5% ar niferoedd 2016) a daeth yn 175 ar restr o atyniadau prysuraf y DU ymysg ymwelwyr; daeth 115,542 o ymwelwyr yno yn 2016, sef cynnydd o 7% ar niferoedd 2015 (ffynhonnell ALVA – Association of Leading Visitor Attractions).
- Zip World Chwarel Penrhyn (nid oes ffigyrau ymwelwyr ar gael eto)
- Zip World Rocks – gŵyl gerddoriaeth undydd flynyddol yn y chwarel; mynychodd 1,800 o bobl ym mis Mehefin, 2018.
- Cwm Idwal: 89,185 o ymwelwyr yn 2018 (ffynhonnell: Adroddiad Ffigyrau Monitro Ymwelwyr, 2018, Parc Cenedlaethol Eryri)

## 7 Isadeiledd a Gwasanaethau

**Bws:** Mae dau wasanaeth bws o Fethesda i Fangor, un drwy Fynydd Llandygai, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn yn unig, 07.35 - 16.35; y llall drwy Gerlan a Rachub, dydd Llun i ddydd Sadwrn 07.00 – 19.00; ar ddydd Sul a Gŵyl Banc, bob dwy awr rhwng 09.00 a 19.00. Gellir cysylltu ym Mangor gyda gwasanaethau i Gaernarfon/Llandudno, ac Ynys Môn.

Rhed y gwasanaeth Sherpa Eryri o orsaf drenau Bangor ar ddydd Sadwrn, dydd Sul a Gwyliau Banc, mae'n gadael am 07.55 ac yn cyrraedd Llyn Ogwen am 8.30 cyn mynd ymlaen i Gapel Curig/Pen y Pass. Mae'n dychwelyd o Lyn Ogwen am 17.35. Gwasanaeth i ddringwyr/cerddwyr yn bennaf.

**Ffordd/Parcio:** saif Bethesda ar gefnffordd yr A5; mae dau faes parcio: Cae Star, talu ac arddangos, 55 lle; a Phant Dreiniog/John Street, am ddim, 47 lle.

Mae nifer gyfyngedig o lefydd parcio arhosiad byr ar hyd y Stryd Fawr er mwyn mynd i'r siopau a chael gwasanaethau.

**Llwybr Beic:** rhed Llwybr Beic Cenedlaethol rhif 82 o Fangor, ar drywydd yr hen reilffordd o Borth Penrhyn, ac mae'n cyrraedd Parc Cenedlaethol Eryri ym Methesda.

**Rhwydwaith Diwifr/Symudol:** mae gwasanaeth diwifr cyhoeddus ar gael am ddim yn y llyfrgell ac mewn nifer o fusnesau drwy'r dref. Mae cynnig i sefydlu rhwydwaith gyhoeddus di-wifr am ddim mewn partneriaeth â Phartneriaeth Ogwen a busnesau ar y Stryd Fawr a fyddai'n cysylltu wedyn â Zip World.

## 8 Ymgynghori

Gwaith ymgynghori blaenorol

Bu cryn waith ymgynghori dros y blynyddoedd diwethaf ym Methesda: ymgynghorodd Partneriaeth Ogwen yn eang wrth ddatblygu ei Strategaeth Adfywio; hefyd, mae'r gwaith ymgynghori a wnaed i lywio prosiect adnewyddu Clwb Rygbi Bethesda ac wrth ddatblygu prosiect partneriaeth tirwedd y Carneddau yn berthnasol – derbyniodd y ddau ohonynt arian gan y Loteri Genedlaethol.

Canolfan Gymunedol Clwb Rygbi Bethesda

Ymgynghorwyd yn eang gyda'r gymuned ar draws gwahanol oedrannau a darpar ddefnyddwyr, ar y math o adnoddau, patrwm defnydd a gofynion i'r dyfodol ar gyfer canolfan gymunedol, yn ogystal â'r ddarpariaeth o gyfleusterau chwaraeon gan y clwb rygbi. Gwnaed hyn trwy drafodaeth ar-lein, holiaduron papur a sesiynau galw heibio. Drwy hyn, sicrhawyd y £500,000 a oedd ei angen ar gyfer adeilad newydd i'r clwb a fyddai'n ganolfan i'r gymuned hefyd.

Prosiect Partneriaeth Tirwedd y Carneddau

Yn ystod y cyfnod datblygu a ariannwyd gan y Gronfa Dreftadaeth, trefnodd y prosiect nifer o ymgynghoriadau gyda ffermwyr lleol, trigolion a'r cyhoedd. Dyma rai o'r prif ganfyddiadau:

- Pryder am wrthdrawiad posibl rhwng denu mwy o bobl i'r ardal a'i chynnal fel lle tawel, naturiol a gwyllt
- Mae prinder arwyddion a gwybodaeth i ddenu pobl i'r Carneddau, ond ymdrin â gosod arwyddion yn ofalus – fe'i gwnaed yn glir y dylid cyfyngu ar nifer yr arwyddion ac na ddylid eu gosod yn y dirwedd ei hun

- Perygl o or-brysuro oherwydd y cynnydd mewn nifer o ymwelwyr yn sgil gwaith hyrwyddo/ymwybyddiaeth gynyddol o'r Carneddau; mae'n amlwg fod pobl leol yn hynod o warchodol o'r Carneddau.

Astudiaeth Sgopio Gwella Canol Tref Bethesda, 2013, Cyngor Gwynedd

Pwrpas yr astudiaeth oedd adnabod cyfleoedd, bygythiadau, cryfderau a gwendidau canol y dref yn ei gyflwr presennol er mwyn datblygu cynllun gweithredu.

Cynhaliwyd cyfarfod Arolwg Lleol gyda chynrychiolwyr o grwpiau budd-ddeiliaid lleol: Partneriaeth Ogwen; Cyngor Cymuned Bethesda; cynghorydd ward Ogwen; ysgolion Dyffryn Ogwen, Pen y Bryn ac Abercaseg; Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru; Balchder Bro Ogwen; a busnesau lleol.

Mewn ymateb i'r dadansoddiad SWOT a ddatblygwyd o'r arolwg, gofynnwyd i fudiadau allweddol arwain ar fentrau amrywiol gyda chyllideb o £18,000 wedi ei ddyfarnu i brosiectau a glustnodwyd i wella Canol y Dref.

Ein hymgynghoriad

Mae nifer o fudiadau yn gweithio ar ddatblygiad cymunedol ar draws amrywiol sectorau ym Methesda, a bu hyn o gymorth mawr i ni yn ein gwaith ymgynghori. Mae Partneriaeth Ogwen wedi bod o gymorth mawr drwy fod yn ganolbwynt i'r rhai sydd â diddordeb mewn adfywio cymunedol yn y dyfodol yng nghyswllt y cais am Statws Safle Treftadaeth y Byd.

Bu i ni fynychu a threfnu rhai o'r digwyddiadau a'r gweithgareddau a ganlyn lle gwnaethpwyd gwaith ymgynghori:

**Cynhadledd Cymunedau Mentrus yn Ysbrydoli, Bethesda:** trefnwyd y digwyddiad gan Bartneriaeth Ogwen a fynychwyd gan gynrychiolwyr o'r holl brif fentrau cymunedol yn yr ardal, a chynghorwyr lleol, arweinwyr cymunedol ac entrepreneuriaid (8 Mawrth).

**Marchnad Ogwen:** penderfynwyd cael stondin yn y farchnad ffermwyr fisol yn Neuadd Ogwen, Bethesda; roedd yn gyfle i gael syniad o'r ddealltwriaeth/amgyffrediad yn gyffredinol o gais Ardal y Llechi, mesur cryfder ymrwymiad y gymuned, a thrafod syniadau am wella'r drewedd/y gymuned yn gyffredinol. (Mawrth 9)

**Tu Hwnt i'r Chwarel:** Cynhaliwyd digwyddiad i lansio arddangosfa yn Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen am y bobl a weithiai ar Ystâd y Penrhyn, ac a guradwyd gan Brifysgol Bangor. Buom yn trafod perthynas y dref gyda'i hanes diwydiannol a chymdeithasol; cysylltiadau rhwng Ystâd/Chwarel y Penrhyn; ymwneud yn ehangach â threftadaeth; themâu cymdeithasol a diwylliannol cyfoes. (Mawrth 19)

**Mapio Pesda, Ddoe a Heddiw:** fe wnaethom drefnu taith gerdded tynnu ffotograffau o gwmpas y dref dan arweiniad artist lleol, Lisa Hudson, gydag aelodau Clwb Camera Dyffryn Ogwen. Dilynasom rai o lwybrau'r chwarelwyr, mannau dehongli, adeiladau a nodweddion hanesyddol, yn arbennig celf llechi. (Ebrill 18)

Rhestrir y prosiectau – rhai sy’n cael eu datblygu ar hyn o bryd a rhai newydd i’w datblygu i’r dyfodol a ddaeth i’r amlwg drwy’r broses ymgynghori - yn y Cynllun Gweithredu atodol.

Yn ogystal â’r digwyddiadau ymgynghori cyffredinol, ymgynghorwyd â’r **budd-ddeiliaid lleol** a ganlyn:

- Clwb Rygbi Bethesda
- Clwb Bethesda Club (Cyd Ynni gynt)
- Marchnad Ogwen
- Neuadd Ogwen/Cwmni Tabernacl
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol / Castell Penrhyn
- Partneriaeth Ogwen (Cyngor Cymuned Bethesda/Llanllechid/Llandygai)
- Welsh Slate/Breedon
- Ynni Ogwen

<u>Canfyddiadau ein hymgynghoriad</u>

Dyma grynhoi’r prif faterion datblygu cymunedol a ddaeth i’r amlwg yn y gwaith ymgynghori.

**Gwelliannau canol y dref/Stryd Fawr**: mae’r angen i adfywio’r Stryd Fawr a denu mwy o fusnesau a siopau i’r dref yn amlwg ac o’r oherwydd yn cael llawer o sylw gan y mentrau cefnogi busnes yn y dref. Mae’r prinder llefydd parcio a siopau wedi eu nodi fel rheswm fod cyn lleied o ymwelwyr Zip World yn mentro i’r dref.

Ychydig o fusnesau sydd wedi manteisio ar Gronfa Benthyciad Canol Tref Bethesda, benthyciad di-log a gynigir gan Gyngor Gwynedd i alluogi i berchnogion eiddo wella eu heiddo. Ymddengys fod perchenogion busnesau yn gyndyn o ymrwymo eu harian eu hunain; bydd y cynllun yn dod i ben ym mis Hydref 2019 ag unrhyw arian na chafodd ei wario yn cael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru. Mae ymyrraeth Partneriaeth Ogwen wedi golygu fod siopau/unedau newydd ar gael yn y dref ond hyd yma nid yw wedi bod ddigon eang i adfywio’r Stryd Fawr.

Mae aelodau Fforwm Busnes Bethesda (grŵp o fusnesau bach, lleol, a ffurfiwyd er mwyn hyrwyddo canol tref Bethesda a’i hadnoddau) wrthi’n datblygu cynllun diwifr mewn partneriaeth â Phartneriaeth Ogwen i gysylltu busnesau’r Stryd Fawr â Zip World, a gaiff ei ategu gan strategaeth farchnata.

Nodwyd hefyd fod diffyg cyfleusterau ac amwynderau yng nghanol y dref ar gyfer ymwelwyr; mae yma brinder bwytai, caffis, bariau a llety, yn arbennig llety moethus/eithaf moethus.

Nodwyd sawl ffordd o **ddenu ymwelwyr a chynyddu nifer yr ymwelwyr i’r dref,** yn bennaf:

- y cynllun bws gwennol arfaethedig (a fyddai hefyd yn helpu lleihau’r tagfeydd traffig yn Llyn Ogwen);

- creu gofod celf newydd sy’n rhoi sylw i gelf llechen gerfiedig (awgrymwyd y gellid cyflawni hyn drwy adnewyddu Siop Ogwen a darparu swyddfa docynnau/mynediad newydd i Neuadd Ogwen); a
- chyfeirio ymwelwyr at Afon Ogwen a pharc glan yr afon, a fyddai’n cyd-fynd â llwybr beicio Lôn Las Ogwen ac yn creu canolbwynt mwy deniadol a naturiol i ganol y dref.

**Dehongli, a hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol**

Mae dealltwriaeth gref a pherchenogaeth o hanes cymdeithasol a hunaniaeth ddiwylliannol y dref, sydd yn bennaf yn cael ei fynegi yn Gymraeg – mae’r ddwy gymdeithas hanes, Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen a Chlwb Hanes Rachub yn cynnal eu cyfarfodydd ac yn cyhoeddi eu trafodion a’u canfyddiadau hanesyddol yn Gymraeg.

Mae’r wefan www.hanesdyffrynogwen.wordpress.com yn adnodd amhrisiadwy ar gyfer hanes lleol ac adeiladau hanesyddol. Hefyd, mae nifer o haneswyr lleol yn geidwaid balch o gasgliadau preifat o ffotograffau a henebion, ond efallai fod yna amharodrwydd i’w rhannu’n ehangach.

Nid oes modd datgysylltu hanes Bethesda oddi wrth Ystâd y Penrhyn, yr oedd teulu’r Pennant yn berchnogion arno. Ym 1900 dechreuodd Streic Fawr y Penrhyn, sef yr anghydfod hiraf yn hanes diwydiannol Prydain, a barhaodd am dair blynedd, ac a ddaeth â blynyddoedd o galedi ac aberth yn ei sgil. Creithiwyd y gymuned wrth i’r gynnen rwygo teuluoedd. Mae cofeb i’r chwarelwyr a aeth ar streic o flaen Capel Jerusalem, lle heidiodd undebwyr o bob cwr o Brydain ar gyfer rali fawr.

Mynegodd rhai'r angen i gael canolfan ddehongli i gofnodi’r bennod arbennig ac unigryw hon yn hanes y dref, ond yn ôl pob golwg nid oes cydsyniad rhwng y mudiadau a holwyd yn ein hymgynghoriad am hyn, a byddai angen ystyried cynaliadwyedd tymor hir canolfan ddehongli a’r gofynion gweithredol yn ofalus.

Awgrymodd sawl un y dylai’r chwarel a hanes y dref gael eu dehongli’n ehangach ar safle Zip World, sydd ar ran o Chwarel Penrhyn. Ychydig iawn o ddehongli sydd hyn o bryd yn ardal y dderbynfa/caffi; ceir rhywfaint o wybodaeth gefndirol am y chwarel wrth fynd fyny yn y lorïau tuag at y mannau hedfan.

Mae aelodau Côr y Penrhyn, y côr meibion lleol, yn gweithio’n frwd i ganfod ffyrdd newydd o ddehongli hanes trwy gyfrwng cerddoriaeth a thafluniadau digidol. Maent yn gobeithio comisiynu gwaith newydd a fyddai’n cyflwyno treftadaeth y dref, mewn modd cyfoes a pherthnasol.

Cefnogir y prosiect gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghastell Penrhyn, a adeiladwyd gan y teulu Pennant a sefydlodd y chwarel ym Methesda. Er gwaethaf gwaddol hanesyddol y modd y sefydlwyd cyfoeth y teulu ar gaethwasiaeth yn Jamaica ac ar lafur eu chwarelwyr, mae’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wrthi’n weithgar yn herio’r agweddau negyddol tuag at Gastell Penrhyn a hanes yr Ystâd.

Un nodwedd arbennig iawn a amlygwyd yn ein hymgynghoriad oedd pwysigrwydd Celf Llechen a'r grefft o gerfio llechen i hunaniaeth gelfyddydol a diwylliannol Bethesda. Er nad yn unigryw i Fethesda, (byddai gwrthrychau llechen wedi cael eu cerfio ar draws holl ardaloedd y chwareli), mae ansawdd a nifer yr enghreifftiau sydd dal yn y gymuned yn eithriadol. Mae rhai wedi eu dogfennu mewn amrywiol gyhoeddiadau: *The Carved Slates of Dyffryn Ogwen, Gwenno Caffell; Slate of Hand, Stone for Fine Art and Folk Art, Judy and Ted Buswick.*

Arddangoswyd enghreifftiau o gasgliad Amgueddfa Gwynedd yn Tate Britain yn 2014. Hwn oedd yr arolwg mawr cyntaf o Gelf Werinol ym Mhrydain. Mae mwy o enghreifftiau o gasgliad Amgueddfa Gwynedd i'w gweld yn barhaol yn yr oriel/amgueddfa ym Mangor, a elwir nawr yn Storiel, ond mae'r gofod arddangos yn gyfyngedig.

Yn ddiweddar, trefnodd Partneriaeth Ogwen brosiect o'r enw Aelwyd a gyflwynwyd gan yr artist Siân Owen, yn Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen. Dangosodd hwn y diddordeb cynyddol yng nghelf y llechi. Cynhaliwyd nifer o weithdai cysylltiol ac roedd yr ymateb i'r gwahoddiad agored i ddod ac enghreifftiau ar gyfer Casgliad y Werin yn syfrdanol. Arddangoswyd rhai ohonynt am gyfnod byr yn y Llyfrgell. Mae'r adborth gan y cyfranwyr, arbenigwyr celf lleol a'r cyhoedd yn dangos fod yna ddyhead i sefydlu prosiect ymchwil/archifol dogfennol cynhwysfawr er mwyn cael cydnabyddiaeth deilwng o'r gweithiau artistig. Hefyd, dylai bod gofod arddangos barhaol ar y Stryd Fawr a fyddai'n ganolfan ar gyfer dehongli pellach ac i ddenu mwy o ymwelwyr i'r dref.

(Mae hyn wrthi'n cael ei ystyried gan Bartneriaeth Ogwen fel rhan o'u cynlluniau ar gyfer prynu ac addasu Siop Ogwen ynghyd â'r cynnig arfaethedig gan Gwmni Tabernacl i ail-ddatblygu'r adnoddau yn Neuadd Ogwen).

**Amgylchedd adeiledig hanesyddol**: pwysleisiwyd arwyddocâd capeli Bethesda (yn arbennig Jerusalem a Bethania) i hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol y dref, er enghraifft bod y dref wedi ei henwi ar ôl y capel cyntaf a godwyd yno.

Sylwadau/materion eraill a nodwyd:

- Mae Rhes Ogwen, teras Sioraidd yng nghanol y dref, yn hynod ddeniadol ond mae nifer o'i siopau yn wag ac mewn cyflwr gwael, ac o'r oherwydd mae nifer o'r nodweddion hanesyddol wedi diflannu, ac maent yn haeddu cael eu hadfer
- Dylid adnewyddu a dehongli'r adeiladau sy'n gysylltiedig â'r chwarel (mae nifer o ohonynt, yn bennaf yr hen Dŷ Tyrbin a gweithdai Felin Fawr) neu eu defnyddio at ddibenion dehongli
- Dylid ymchwilio'r opsiynau ar gyfer gwarchod rhai o adeiladau pwysig a chynharaf y dref (gan gynnwys Fferm Coetmor a Chae'r Berllan)
- Byddai canol y dref yn elwa o gynllun grant penodol ar gyfer adeiladau allweddol a gwelliannau i'r amgylchedd yn seiliedig ar dreftadaeth, a all gynnwys Capel Jerusalem, yr hen fanc, ac adeiladau eraill o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar hyd y Stryd Fawr.

Gweler Adran 11 am amlinelliad o'r prosiectau a flaenoriaethwyd yn dilyn yr Asesiad o'r Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol. Ceir gwybodaeth fanylach yn Atodiad 3 .

**Cyfleusterau i ymwelwyr, a thrafnidiaeth ac isadeiledd:** dros y blynyddoedd bu sawl ymgyrch i hyrwyddo Bethesda fel 'porth i Eryri', ond y teimlad yn gyffredinol yw nad yw hyn wedi'i wireddu. Y prif resymau a nodwyd oedd prinder llefydd parcio; ychydig o siopau/eiddo gwag ac mewn cyflwr gwael; prinder cyfleusterau i ymwelwyr; a'r traffig diwydiannol trwm trwy'r dref.

Yn Zip World, ceir golygfeydd panoramig o Chwarel y Penrhyn gyda chaffi/bar/bwyty, ac mae'r profiad yn annog ymwelwyr i dreulio'r diwrnod cyfan ar y safle. O'r oherwydd, ychydig iawn sy'n ymweld â Bethesda ei hun, yn enwedig am fod diffyg cyfleusterau, megis llefydd bwyta/yfed a llety.

Dwedodd y darparwyr llety y cysylltwyd â nhw fod prinder llefydd bwyta o safon gyda'r nos yn broblem i ymwelwyr, ac o'r oherwydd mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teithio i Fangor.

Mae yna brosiectau y mae'r gymuned wedi'u hadnabod a allai fynd afael â phroblemau isadeiledd a chyfeiriadedd, gan gynnwys:

Bws trydan/gwasanaeth gwennol ar gyfer cerddwyr/dringwyr o'r dref i ben draw Dyffryn Ogwen, a fyddai'n lliniaru'r problemau tagfeydd/parcio ym Mwthyn Ogwen ar yr adegau prysuraf.

Creu llwybr newydd ar hyd glan yr afon a fyddai'n cysylltu'r dref ag adeiladau'r chwarel yn y Felin Fawr, ac i fyny at Zip World/Penrhyn, gan gyfeirio ymwelwyr oddi wrth y Stryd Fawr brysur a thuag at harddwch naturiol yr afon.

Partneriaeth Ogwen sydd yn arwain ar ddatblygu cymunedol ac adfywio. Mae ei hymgynghori eang yng nghymunedau Dyffryn Ogwen i adnabod y blaenoriaethau a hysbysu datblygiad ei strategaeth, yn greiddiol i'r cyfleoedd adfywio yr ydym yn eu hystyried yn y Cynllun Cynefin hwn ac yng nghyd-destun Cais Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Fe'u rhestrir yn Adran 5: Prosiectau Adfywio.

Isod nodir y **blaenoriaethau ar gyfer datblygu** a ddaeth yn amlwg yn ystod ein hymgynghoriad:

- Gwella'r Stryd Fawr/canol y dref, denu mwy o fusnesau a darparu mwy o amwynderau i ymwelwyr
- Datblygu cyfleoedd i ddenu ymwelwyr i'r dref – gofod dehongli/arddangos newydd; llwybrau ar hyd yr afon; cysylltu gydag adeiladau'r chwarel a Zip World
- Ymchwilio'r opsiynau ar gyfer adnewyddu adeiladau hanesyddol sydd o arwyddocâd i dreftadaeth y dref
- Ymchwilio cyfleoedd i ddehongli hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol y dref, yn arbennig Celf Llechen
- Gwella mynediad (lle'n bosib) i ddeunydd dehongli a gwybodaeth am hanes cymdeithasol, diwylliannol a diwydiannol y dref; hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o dreftadaeth Bethesda
- Cefnogi a datblygu busnesau lleol ar y Stryd Fawr a chreu cyfleoedd marchnata newydd ac integredig

- Gwella gwasanaeth cludiant cymunedol/cyhoeddus er mwyn gwella mynediad i ganol y dref
- Hyrwyddo ynni cynaliadwy ac adnewyddadwy, a gwarchod yr amgylchedd naturiol trwy'r prosiectau adfywio arfaethedig.

## 9 Archwiliad o'r Gymuned

Cynhaliwyd archwiliad o'r gymuned er mwy cael gwell dirnadaeth o'r ddarpariaeth i drigolion ac ymwelwyr, sef archwiliad o'r modd y mae Bethesda yn gweithredu fel cymuned o'r tu allan.

Cynrychiolaeth o'r Gymuned

Yn yr adran hon rydym yn rhoi braslun o adnoddau a mudiadau cymunedol, er mwyn rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth sydd ar gael i'r gymuned leol.

**Cynghorau Cymunedol Dyffryn Ogwen** – Bethesda, Llanllechid a Llandygai. Mae'r tri chyngor cymuned wedi cyfuno eu hadnoddau er mwyn cynnal Partneriaeth Ogwen, menter gymdeithasol, sydd yn darparu cefnogaeth weinyddol ar gyfer y tri chyngor.

**Partneriaeth Ogwen**: menter gymunedol, a'i nod yw adfywio a chynnal yr economi leol, a datblygu mentergarwch ac arloesi yng nghymunedau Dyffryn Ogwen.

Manylir ar weithgaredd a phrosiectau cyfredol Partneriaeth Ogwen yn Adran 4: Prosiectau Adfywio. Mae ei phrosiectau a'i mentrau arfaethedig a ddatblygwyd trwy'r ymgynghoriad wedi eu rhestru yn y Cynllun Gweithredu.

Mae'r mudiadau cymunedol a chymdeithasol a ganlyn yn weithgar ym Methesda:
- Caban Cysgu Gerlan/Canolfan Gymunedol Gerlan
- Caffi Coed y Brenin
- Fforwm Busnes Bethesda
- Merched y Wawr: Tregarth
- Pesda Positif
- WI: Bethesda

Mae'r mudiadau diwylliannol hyn yn weithgar yn y dref:

- Atgofion Ogwen/Bethesda
- Clwb Camera Dyffryn Ogwen
- Clwb Hanes Rachub
- Côr y Penrhyn
- Cwmni Drama Crawia
- Cwmni Drama Llechen Las
- Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen
- Gŵyl Afon Ogwen River Festival
- Gŵyl Fynydda Ogwen
- Llais Ogwan

Lleoliadau celfyddydol a diwylliannol yn y dref:

- Neuadd Ogwen - theatr, sefydliad cerddoriaeth a digwyddiadau eraill
- Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen– fe'i rheolir gan Bartneriaeth Ogwen; yn darparu ystafell fechan ar gyfer cyfarfodydd/arddangosfeydd/gweithdai celfyddydol.

## 10 Asesiad Ymwelwyr

Yn yr adran hon rydym yn asesu'r hyn sydd gan Fethesda i'w gynnig i'r ymwelydd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r heriau i ddatblygu'r dref i'r dyfodol.

Cynllun/Cyrraedd

Yr A5 (Llundain i Gaergybi) yw'r brif ffordd/stryd fawr drwy'r dref, sef y Stryd Fawr. Mae hi'n ffordd hynod o brysur gyda lorïau trwm yn gwibio'n ôl a blaen i Chwarel y Penrhyn; mae'r palmentydd yn gul ac mae yna rai ardaloedd cyhoeddus gyda seddi: ardal Llys Dafydd, yr ardal o amgylch yr hen archfarchnad, a'r gerddi o flaen Capel Jerusalem. Yn gyffredinol, nid yw'n eich denu i aros a chrwydro'r dref ymhellach.

Rhed Afon Ogwen yn gyfochrog â'r ffordd fawr, sydd yn adnodd naturiol a hardd. Ond, mae mynediad yng nghanol y dref yn gyfyngedig: mae pont yn arwain at Barc Meurig, sef parc glan yr afon, ac mae hwn yn arwain at Lôn Las Ogwen, y llwybr beicio cenedlaethol. Mae gan rai caffis/tafarndai erddi/golygfeydd dros yr afon, ond gellid troi'r ardal hon yn adnodd mwy deniadol i ymwelwyr a'r gymuned leol.

Gan mai un stryd hir yw canol y dref yn y bôn, nid oes 'man cyrraedd' amlwg ym Methesda: mae'r bws yn stopio yma ond wedyn yn mynd mewn cylch drwy bentrefi eraill cyn dychwelyd i Fangor.

Mae dau faes parcio oddi ar y Stryd Fawr, ond os nad yw'n gyfarwydd â'r dref, gallai'r ymwelydd golli'r arwyddion ar eu cyfer yn hawdd, gan fynd yn ei flaen trwy'r dref heb gael hyd i le i barcio. Mae ambell le parcio arhosiad byr ar y Stryd Fawr er mwyn mynd mewn i siop/gaffi am ychydig bach.

Gwybodaeth i ymwelwyr: cyfeiriadedd/arwyddion/gwybodaeth i dwristiaid

Mae paneli dehongli yn ardal gyhoeddus Llys Dafydd sy'n cyflwyno hanes byr o'r dref, a'i threftadaeth ddiwydiannol, gymdeithasol a diwylliannol.

Yn ôl bob tebyg, mae taflenni gyda theithiau cerdded yn y dref, a gynhyrchwyd gan Bartneriaeth Ogwen, ar gael mewn siopau a busnesau ar hyd y Stryd Fawr, ond nid oes unrhyw arwyddion i gyfeirio'r ymwelydd o gwmpas y dref. Nid oes arwyddion/paneli dehongli chwaith ar gyfer adeiladau neu nodweddion eraill o ddiddordeb hanesyddol a phensaernïol yng nghanol y dref.

Prin yw'r arwyddion sy'n eich cyfeirio at lan yr afon a Pharc Meurig. Mae llwybr Llyfr Mawr y Plant yn y parc yn nodwedd ddiwylliannol ddeniadol, er efallai dylai'r arwyddion gael eu hadnewyddu. Mae yna arwyddion yn cyfeirio beicwyr tuag ag Lôn Las Ogwen.

Mae Llwybr Llechi Eryri yn mynd trwy'r dref ac mae yna rywfaint o wybodaeth dehongli ar y wefan.

Mae menter ddehongli newydd, Mapio Pesda Ddoe a Heddiw, https://mapiopesda.wordpress.com, yn defnyddio teclyn cynnwys Alpaca Travel i gyflwyno prif nodweddion a mannau o ddiddordeb hanesyddol, ond mae angen ei ddatblygu ymhellach.

Mae paneli dehongli ger rhai o brif adeiladau'r chwarel, ac ar hyd y llwybr beics, ond mewn rhai mannau, gall fod cymaint â thair arwydd wahanol gan wahanol asiantaethau, a chan fod y wybodaeth yn amrywio gall fod yn ddryslyd.

Gosodwyd paneli dehongli yn ffenestri rhai siopau gwag ar hyd y Stryd Fawr yn cyflwyno hanes y dref – mae arddangosfa ddiddorol o luniau a gwrthrychau hanesyddol gan Gôr Y Penrhyn, y côr meibion lleol, yn Rhes Ogwen.

Nid oes canolfan groeso i dwristiaid, ond mae Siop Ogwen yn gweithredu fel canolfan wybodaeth ar gyfer digwyddiadau, gweithgareddau, ac ati, ond nid yw ar agor yn ddyddiol.

<u>Cyfleusterau</u>

**Cyfleusterau cyhoeddus:** toiledau ar y Stryd Fawr.

**Caffis/bwytai:** mae tri chaffi yng nghanol y dref: mae Caffi Coed y Brenin a Chaffi Seren yn cau yn gynnar yn y prynhawn. Mae Patricks, caffi i gerddwyr/dringwyr, ar agor o ddydd Iau tan ddydd Sul, ond mae'r oriau agor yn gallu bod yn anwadal.

Mae pedwar tŷ tafarn ar y Stryd Fawr: Douglas Arms, Victoria, King's Head, a'r Llangollen sydd yn gweini bwyd – o ansawdd gymedrol, awyrgylch digon dymunol.

Yn Zip World, mae caffi'r Fforest a bwyty Blondin ar agor saith diwrnod yr wythnos. Lleoliad deniadol gyda golygfa banoramig o'r chwarel.

Mae gan Gwrw Ogwen, y bragdy micro lleol, siop/bar ar y Stryd Fawr.

Dywed darparwyr llety fod y diffyg llefydd bwyta o safon, sydd ar agor gyda'r nos, yn creu problem wirioneddol i ymwelwyr, ac o'r oherwydd, mae'r rhan fwyaf yn mynd i Fangor.

<u>Atyniadau a Gweithgareddau ar gyfer ymwelwyr</u>

Dyma'r **atyniadau i ymwelwyr** yn y dref a'r ardal leol:

- **Castell Penrhyn** – castell ffug a gerddi ger Llandygai, ym mherchenogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Comisiynwyd yr adeilad presennol gan y Barwn Penrhyn cyntaf, a wnaeth ei gyfoeth drwy gaethwasiaeth yn Jamaica a datblygiad y chwarel lechi ym Methesda.

- **Zip World Chwarel y Penrhyn** - wedi ei leoli o fewn y chwarel, Velocity 2 yw'r wifren sip gyflymaf yn y byd, ac mae 500m uwchlaw'r llyn.

- **Parc Cenedlaethol Eryri:**

- **Cwm Idwal** – y Warchodfa Natur Genedlaethol gyntaf yng Nghymru. Mae'n lle poblogaidd iawn i gerdded, dringo, pysgota a daeareg. Fe'i rheolir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Parc Cenedlaethol Eryri a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae gan yr Ymddiriedolaeth ganolfan wybodaeth/caffi ym Mwthyn Ogwen, sydd yn Ganolfan Outward Bound.

- Mae'r gadwyn o fynyddoedd y **Carneddau** yn cynnwys yr ardal gydgyffyrddol ucheldir (dros 2,500 neu 3,000) fwyaf yng Nghymru a Lloegr, ynghyd â chwech neu saith o'r copaon uchaf yn y wlad.

- **Llwybr Llechi Eryri** – llwybr troed 85 milltir o hyd o amgylch ardaloedd y chwareli. Mae'n cychwyn yn Aber Cegin (Porth Penrhyn), o le yr allforiwyd llechi'r Penrhyn mewn llongau. Mae'n mynd trwy rai o'r pentrefi chwarelyddol llai ac yna i ganol Bethesda. Datblygwyd y llwybr yn ddiweddar gyda chymorth nifer o bartneriaid lleol.

Rydym wedi adnabod y **safleoedd a'r gweithgareddau diwylliannol a threftadol** a ganlyn yn y dref a'r ardal:

- **Neuadd Ogwen** – theatr, lleoliad cerddoriaeth a digwyddiadau eraill
- **Parc Meurig –** llwybr Llyfr Mawr Y Plant

Rydym wedi adnabod y **digwyddiadau** a ganlyn a gynhelir yn y dref a'r ardal:

- Gŵyl Afon Ogwen, gŵyl gelfyddydol flynyddol a gynhelir ym Mharc Meurig a lleoliadau eraill yn y dref
- Pesda Roc – digwyddiad cerddoriaeth annibynnol flynyddol
- Gŵyl Fynydda Ogwen – cyfres o ddangosiadau ffilm, sgyrsiau a digwyddiadau yn ymwneud â mynydda
- Zip World Rocks – digwyddiad cerddoriaeth fyw a gynhelir ym mis Mehefin yn Zip World

<u>Darpariaeth Llety</u>

Mae llety â gwasanaeth yn brin iawn yn y dref, un byncws (uwchben tafarn y Victoria) yn bennaf, ac un dafarn gydag ystafelloedd. Ond yn yr ardal ehangach mae mwy o

ddarpariaeth: deunaw o dai gwyliau hunan arlwyo o fewn milltir i'r dref, gyda naw ohonynt o fewn hanner milltir.

Mae yna fyncws cymunedol, Caban Cysgu Gerlan yng Ngerlan, sy'n llety fforddiadwy gydag 16 o wlâu. Bu cynnydd yn ddiweddar yn y nifer o lety Airbnb yn yr ardal, mewn ymateb i'r galw yn sgil Zip World.

Mae un safle carafanau parhaol ar gyrion y dref gyda 68 carafán statig a 34 caban.

Mae arolwg stoc gwelâu yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a bydd yr adran hon yn cael ei diweddaru unwaith y bydd y canfyddiadau ar gael.

Proffil Ar-lein Bethesda

Nid oes gan dref Bethesda wefan na thudalen Facebook.

Mae gwefan Partneriaeth Ogwen www.ogwen.org yn darparu gwybodaeth am weithgaredd y mudiad.

Mae Atgofion Bethesda yn grŵp Facebook lle gall pobl rannu atgofion a gwybodaeth am hanes lleol.

Mae www.hanesdyffrynogwen.wordpress.com yn adnodd hanes lleol, yn Gymraeg yn unig.

Adolygiadau gan ymwelwyr

Yn ogystal â darparu ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth ar gyfer darpar ymwelwyr (yn arbennig adolygiadau ar-lein), gall adolygiadau gan ymwelwyr roi arweiniad cadarnhaol ar sut i wella. Rydym wedi dadansoddi rhai adolygiadau cadarnhaol, negyddol a chymysg o Fethesda ac wedi ymgorffori ein canfyddiadau yn ein dadansoddiad SWOT sydd yn dilyn. Mae'r adolygiadau yn codi pwyntiau gwerthfawr er ystyriaeth ac yn galluogi i ni ddeall yn well sut mae ymwelwyr yn gweld Bethesda. Dyma grynodeb byr o'r adolygiadau:

Mae'r dro yng Nghwm Idwal yn cael adolygiadau cadarnhaol unfrydol, gydag ymwelwyr yn ei ddisgrifio fel: 'anhygoel', 'gwych' a 'syfrdanol', ac yn ysgrifennu: 'lle hardd i gerdded… golygfeydd anhygoel i bob cyfeiriad a pharcio gerllaw' (Ebrill 2019); 'lle hyfryd… tirwedd odidog' (Mawrth 2019); 'lle gwirioneddol brydferth i ymweld ag o unrhyw adeg o'r flwyddyn' (Tachwedd 2018); ac, 'Wn i ddim sawl gwaith y gellir dweud hyn, ond mae'n lle ardderchog i ymweld ag o… tro cerdded hardd ac mae'r wobr ar y copa yn odidog' (Mai 2019).

Nododd un adolygydd fod gerddi Capel Jerusalem yn 'flêr' a 'bod yna lawer iawn o ysbwriel wedi ei daenu o amgylch y meinciau'; aeth ati i nodi fod 'yr Eglwys fawreddog yn edrych fel adfeiliedig a gwag' (Mai 2017).

Cymysg yw'r adolygiadau am letygarwch. Mae'r rhan fwyaf yn gadarnhaol, gan nodi 'bwyd, gwasanaeth, wedi'i addurno'n dda, glanweithdra da.' Mae ambell adolygiad negyddol sy'n

nodi ‘awyrgylch anghynnes’, ‘’lefelau isel o lanweithdra, wedi’i addurno a’i oleuo’n wael’ a ‘diffyg argaeledd o stoc’. Cymysg hefyd yw’r adolygiadau am y llety prin yng nghanol y dref.

## 11 Yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol

Rydym wedi cynnal **asesiad o’r dreftadaeth adeiledig,** a roddodd ystyriaeth i’r meini prawf a ganlyn:

**Gwarchodaeth Statudol:**

- Adeiladau rhestredig (yn ôl gradd: I, II*, II)
- Henebion Cofrestredig
- Adeiladau a nodweddion mewn Ardaloedd Cadwraeth

**‘Statws mewn perygl’:**

- Fel y’u diffinnir gan gofrestr adeiladau mewn perygl Cadw (BAR) ar gyfer pob ardal unigol. Dyma’r dosbarthiadau:
    - Mewn Perygl
    - Bregus
    - Ddim mewn perygl
- Wedi ei seilio ar archwiliad byr o’r tu allan (gan nodi a yw’r defnydd yn amlwg , a yw’r adeilad yn ymddangos yn anghyfannedd neu’n fregus)

**Cyd-destun treftadaeth y diwydiant llechi:**

- Y pwysigrwydd yng nghyd-destun treftadaeth diwydiant llechi’r ardal (er nad yw cwmpas y gwaith yn caniatáu asesiadau treftadaeth neu ymchwil ar adeiladau na safleoedd unigol)
- Adborth o’r broses ymgynghori am amgyffrediad pobl leol o bwysigrwydd adeilad, nodwedd neu safle
- Cynnig detholiad cynrychiadol o adeiladau a oedd yn cefnogi’r diwydiant llechi a’i chymunedau.

**Potensial adfywio a dehongli:**

- Potensial adeilad unigol neu safle i gyfrannu at adfywio’r ardal, at ddarparu cyfleoedd dehongli arwyddocaol neu gyfleoedd eraill.

Trafodwn ein canfyddiadau yn llawn yn Atodiad 3. Isod, ceir crynodeb o brosiectau’r amgylchedd adeiledig sydd wedi eu blaenoriaethu.

Nid y safleoedd mwyaf arwyddocaol yw’r rhain o reidrwydd, ond maent yn cydbwyso arwyddocâd (yng nghyd-destun y diwydiant llechi) gyda’r potensial i gyfrannu at adfywio cymunedol sylweddol. Rhestrir yr holl brosiectau yn y Cynllun Gweithredu atodol.

Dyma’r safleoedd y dylid eu blaenoriaethu:

1. **Rhes Ogwen**: nodwedd bwysig ac amlwg yn y dref. Teras crwm o ddechrau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda 22 tŷ, â chwech ohonynt yn rhestredig. Mae’r

gweddill wedi eu haddasu'n wael. Potensial cryf o safbwynt adnewyddu, a gallai hyn weddnewid y Stryd Fawr ac ardal glan yr afon. Awgrymir rhaglen grant unai ar gyfer Rhes Ogwen ei hun neu fel rhan o becyn ehangach ar gyfer canol y dref.

2. **Gwelliannau ehangach yng nghanol y dref**: Cynllun grant penodol ar gyfer adeiladau allweddol a gwelliannau amgylcheddol treftadaeth, a allai gynnwys Capel Jerusalem (mynediad, dehongli, cadwraeth), yr hen Fanc, ac adeiladau eraill o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar hyd y Stryd Fawr. Dylai hyn gynnwys creu mwy o gysylltiad gyda glan yr afon a gwell cysylltedd, a galluogi gweithgareddau ar hyd yr afon.
3. **Capel Bethania**: Adeilad pwysig ger y fynedfa i'r dref, Gradd II rhestredig. Adeilad nodedig ac amlwg; y tu mewn mae nifer fawr o'r manylion gwreiddiol wedi eu harbed. Mae yma gyfle arwyddocaol i adfywio'r rhan hon o'r dref, gan gysylltu'r ddwy ardal gadwraeth gyfagos, Rhes Gordon a Rhes Elfed. Awgrymir cynnal asesiad opsiynau.
4. **Fferm Coetmor a'i hadeiladau**: Casgliad o adeiladau fferm gwych ac ysgubor, yn wreiddiol gysylltiedig â Neuadd Coetmor, ac yn Radd II rhestredig. Deallwn fod y ffermdy'n wag ar hyn o bryd ac ar gofrestr Cadw o Adeiladau Mewn Perygl. Gellid ei ddefnyddio fel llety i ymwelwyr, gan fod prinder ohonynt o ystyried yr agosrwydd at atyniadau twristiaeth allweddol, neu fel gofod masnachol ar raddfa fach. Argymhellir cynnal asesiad opsiynau. Roedd y Neuadd ddiweddaraf (a ddifrodwyd gan dan ym 1933) yn gartref i'r dyn busnes dylanwadol a'r gwleidydd lleol, W.J. Parry. Safai plasty cynharach gerllaw, ac mae'r adeiladau fferm yng Nghoetmor yn dyddio o'r cyfnod cynharach hwn. Argymhellir cynnal asesiad opsiynau.
5. **Cae'r berllan**: Mae'r teras cynnar gwych hwn yn Radd II rhestredig. Nodwyd bod un adeilad, rhif 5, mewn perygl. Mae angen mynd i'r afael â hyn, a gallai gynnig cyfle nail ai i ddehongli'r adeilad fel ag yr oedd, pe gellid sicrhau'r berchnogaeth, neu fel llety unigryw ym Methesda (neu, wrth gwrs, y ddau). Mae angen dathlu a dehongli'r teras cyfan.
6. **Yr hen dŷ tyrbin**: Chwarel y Penrhyn. Yn adeilad heb ei restru, saif yr hen dŷ tyrbin ger y maes carafanau ac Afon Ogwen, i'r de o Fethesda ar y ffordd i mewn i'r chwarel. Posibilrwydd ei adfywio fel rhan o brosiect trydan-dŵr, neu ei gadw a'i ddehongli (gyda defnydd cysylltiol wedi'i gynnwys o bosib) ger llwybr beic Lôn Las Ogwen.
7. **Gweithdai'r Felin Fawr:** Casgliad hardd o adeiladau rhestredig a heneb fach gofrestredig. Ystyrir fod un ohonyn nhw, yr olwyn ddŵr, mewn perygl. Gallai rhannau eraill o'r safle fod mewn perygl oherwydd bod rheilffordd Treftadaeth Chwarel y Penrhyn wedi dod i ben. Serch hynny, mae yma gyfleoedd sylweddol oherwydd ei fod wedi ei leoli ar Lôn Las Ogwen, rhwng y dref a'r chwarel. Argymhellir cynnal asesiad opsiynau.

## 12 Y Prif Heriau a'r Cyfleoedd

Yn dilyn ein hymgynghoriad a'n hymchwil, death yn amlwg fod Bethesda yn wynebu rhai heriau sylfaenol, a bydd angen mynd i'r afael â'r rhain os yw'r dref am wneud y gorau o'r budd a ddaw gydag enwebiad Safle Treftadaeth y Byd. Yma, crynhown yr heriau allweddol yr ydym wedi'u hadnabod a'r cyfleoedd a fyddai'n galluogi i'r dref fynd i'r afael â hwy.

Dadansoddiad SWOT (CGCB)

Mae'r dadansoddiad SWOT (CGCB) yn asesu Bethesda o safbwynt yr ymwelydd ac aelodau'r gymuned, ac mae'n crynhoi cryfderau, gwendidau, cyfleodd a bygythiadau'r cynnig i ymwelwyr a'r ddarpariaeth i drigolion:

| **CRYFDERAU** | **GWENDIDAU** |
|---|---|
| **CYMUNED**<br>• Ymdeimlad cryf o gymuned, yr iaith Gymraeg, hunaniaeth a diwylliant<br>• Cynghorau Cymuned wedi uno i greu menter gymdeithasol effeithiol – Partneriaeth Ogwen<br>• Ynni cynaliadwy a'r amgylchedd yn allweddol i nifer o fentrau adfywio cymunedol<br>• Lleoliadau/canolfannau cymunedol bywiog sy'n darparu gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon – Neuadd Ogwen a Chlwb Rygbi Bethesda | **CYMUNED**<br>• Cyfran sylweddol o siopau gwag ar y Stryd Fawr a nifer o adeiladau mewn cyflwr gwael<br>• Ychydig sydd wedi manteisio ar Gronfa Gwella Canol Tref Bethesda<br>• Diffyg gwasanaeth trafnidiaeth gymunedol er budd pobl hŷn/yr anabl ac ati<br>• Diffyg gweithgareddau a rhwydweithiau cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn |
| **TWRISTIAETH**<br>• Tirwedd a golygfeydd eithriadol yn yr ardal o gwmpas<br>• Y dref agosaf at Gwm Idwal/Dyffryn Ogwen (cyrchfan boblogaidd i fynyddwyr a cherddwyr), ac felly'n canolfan gyfleus ar gyfer gwyliau cerdded byr.<br>• Mae Zip World yn Chwarel y Penrhyn yn denu nifer fawr o ymwelwyr<br>• Hawdd ei gyrraedd – ar yr A5 ac yn agos at yr A55 | **TWRISTIAETH**<br>• Dim llawer o ddewis o gaffis/ bwytai/ siopau yn y dref a dim clwstwr o siopau nodedig – cynnig manwerthu gwan<br>• Dewis cyfyngedig o fwyd a diod gyda'r nos/ar y penwythnos<br>• Dibyniaeth ar lety â gwasanaeth rhatach yn y dref<br>• Diffyg cyfleusterau yn y dref ar gyfer ymwelwyr – parcio, siopa, caffis/bwytai<br>• Nid yw'r dref wedi manteisio ar agosrwydd Zip World a'i ymwelwyr – lefel isel o farchnata o siopau'r Stryd Fawr<br>• Lorïau trwm ar hyd yr A5 a pharcio cyfyngedig yn rhwystr i bobl oedi yn y dref<br>• Ardal glan yr afon wedi ei chuddio o'r Stryd Fawr – diffyg arwyddion i gyfeirio pobl yno. |
| **TWRISTIAETH A CHYMUNED**<br>• Isadeiledd cludiant cyhoeddus cyfyngedig – bws i Fangor yn ystod y dydd | **TWRISTIAETH A CHYMUNED**<br>• Angen gwell cyfleusterau cyhoeddus ac ar gyfer twristiaid |

| | |
|---|---|
| • Llwybr beicio sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan feicwyr a cherddwyr yn lle'r Stryd Fawr.<br>• Pensaernïaeth/nodweddion hanesyddol unigryw<br>• Hanes o drefnu digwyddiadau/gwyliau llwyddiannus<br>• Neuadd Ogwen – canolfan ar gyfer digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol | • Prinder llefydd parcio yn rhwystr i ymwelwyr a thrigolion dreulio mwy o amser yn y dref ei hun<br>• Statws yr A5 (cyfyngiadau ffyrdd categori A) yn cyfyngu ar gyfleoedd a gweithgareddau yn y dref e.e. ni chaniateir goleuadau Nadolig<br>• Economi gyda'r nos/liw nos gwan<br>• Nifer fawr o adeiladau gwag yng nghanol y dref<br>• Amgyffrediad o botensial y dref yn gyfyngedig |
| **<u>CYFLEOEDD</u>**<br>**CYMUNED**<br>• Menter y bws trydan cymunedol<br>• Creu llefydd parcio newydd er mwyn cefnogi busnesau'r Stryd Fawr<br>• Sefydlu cynllun diwifr cymunedol i gefnogi busnesau lleol<br>• Cynyddu nifer yr ymwelwyr i ganol y dref a'r gwariant cysylltiol<br><br>**TWRISTIAETH**<br>• Lleoliad ar yr A5 ac yn agos at yr A55 - cysylltiadau da i leoliadau twristiaeth eraill yn Eryri/Gogledd Cymru yn golygu y gallai fod yn gyrchfan am ddiwrnod i ymwelwyr sy'n aros mewn ardaloedd eraill<br>• Ffordd Cymru: tri llwybr strategol newydd – Ffordd Cambrian, Ffordd yr Arfordir, Ffordd Gogledd Cymru, a ddatblygwyd gan Croeso Cymru – cyfle allweddol i hyrwyddo Bethesda fel cyrchfan i gerddwyr<br>• Llwybr Llechi Eryri: gweithgaredd marchnata a hyrwyddo uwch; cyfle i | **<u>BYGYTHIADAU/HERIAU</u>**<br>**CYMUNED**<br>• Canol y dref/ Stryd Fawr ddim yn cael eu gwella a busnesau lleol yn parhau i beidio cefnogi'r fenter i wella canol y dref<br>• Partneriaeth Ogwen yn methu sicrhau arian digonol ar gyfer eu cynlluniau mwy<br>• Problemau parcio yn y canol yn dal heb eu datrys<br>• Cynaliadwyedd economaidd a dirywiad cyffredinol trefi mewn ardaloedd gwledig<br>• Hinsawdd economaidd a gwleidyddol ansicr<br><br>**TWRISTIAETH**<br>• Canol y dref heb ei wella – edrych fel pe bai wedi'i esgeuluso<br>• Diffyg adnoddau i ymwelwyr (yn enwedig ar y penwythnos/gyda'r nos) – ddim yn gwasanaethu/denu ymwelwyr<br>• Perygl nad aiff y cynllun gwasanaeth gwennol/bws trydan/gwennol yn ei flaen, a golygu y bydd problemau parcio/traffig yn gwaethygu<br>• Perygl fod canol y dref yn parhau i fethu mynd i'r afael â'r cyfleoedd y mae llif ymwelwyr Zip World yn eu cynnig, a allai |

| | |
|---|---|
| ddatblygu amwynderau i gerddwyr yn yr ardal<br>• Gwasanaeth bws gwennol trydan; llwybr cerdded glan yr afon – cynlluniau a allai helpu lliniaru trafnidiaeth a denu pobl i’r dref<br>• Creu llwybr newydd i gysylltu’r dref gyda Chwarel y Penrhyn<br>• Gofod dehongli/arddangos newydd yn Siop Neuadd/ Ogwen a allai gyfrannu at greu cyrchfan mwy deniadol, darparu cyfleusterau i ymwelwyr, a gwella’r cynnig i ymwelwyr<br>• Datblygu llety o ansawdd ar gyfer ystod o gyllidebau<br>• Creu llefydd/meysydd parcio newydd er mwyn hwyluso mynediad at fusnesau’r Stryd Fawr | olygu cynnydd yn y bwlch rhwng yr atyniad a chanol y dref |
| **TWRISTIAETH A CHYMUNED**<br>• Enwebiad Safle Treftadaeth Byd<br>• Ymchwilio defnydd o siopau a gweithgareddau dros dro (‘pop up’) mewn eiddo gwag ar y Stryd Fawr<br>• Adfywio canol y dref – annog defnydd o Gronfa Gwella Canol y Dref ac annog busnesau i fuddsoddi yn eu hadeiladau<br>• Ymchwilio ffyrdd o ymestyn oriau agor busnesau bwyd y dref a gweithio i ddenu busnesau bwyd a diod newydd<br>• Ymchwilio’r posibilrwydd o greu gwell mynediad at lan yr afon o ganol y dref a chynyddu llif y bobl<br>• Adnabod mannau mynediad unigol ar hyd Afon Ogwen i hyrwyddo mwy o ddefnydd o lan yr afon ar gyfer gweithgareddau a llesiant<br>• Cynyddu’r amrediad o ddigwyddiadau<br>• Ymchwilio ffyrdd y gallai’r dref fanteisio ar y nifer sylweddol o bobl sy’n ymweld â Zip World | **TWRISTIAETH A CHYMUNED**<br>• Yr her ariannol a gweithredol o greu mynediad i lan yr afon o ganol y dref<br>• Perygl fod mwy o siopau yn mynd yn wag – canol y dref yn mynd yn fwyfwy anghyfannedd<br>• Dygnwch/parodrwydd/gallu busnesau bychain i fuddsoddi yn eu busnesau – effaith ar gyflwr a chanfyddiad o ganol y dref<br>• Dirywiad y gofod cyhoeddus a chanol y dref yn parhau os na wneir un rhywbeth<br>• Cystadlu gyda threfi mwy e.e. Betws y Coed, Llanberis ac atyniadau twristiaeth/awyr agored gwledig eraill |

## 13 Casgliadau ac argymhellion

Yn dilyn ein hymgynghoriad a'n hymchwil, sy'n cynnwys yr archwiliad o'r gymuned a'r asesiad ymwelwyr, ynghyd â'n hystyriaeth o'r heriau a'r cyfleodd ar gyfer y dref, rydym wedi adnabod y themâu canlynol fel y blaenoriaethau adfywio i Fethesda:

- Gwella canol y dref
- Dehongli hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol y dref
- Yr amgylchedd adeiledig hanesyddol
- Cyfleusterau ymwelwyr ac isadeiledd cludiant
- Cefnogi a hyrwyddo busnesau lleol
- Cynaliadwyedd amgylcheddol

Isod rydym yn edrych yn fwy manwl ar yr heriau a'r cyfleoedd yn ôl y themâu hyn, ac mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn nodi'r darpar brosiectau a'r prosiectau posib sy'n ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd hyn.

Gwelliannau i Ganol y Dref

Mae'r angen i wella'r Stryd Fawr/Canol y dref, denu mwy o ymwelwyr a darparu mwy o adnoddau i dwristiaid yn cael ei fynegi'n glir yn ein hymgynghoriad a'r asesiad ymwelwyr. Isod, nodwn ein hargymhellion ar gyfer cyfleusterau i ymwelwyr, ynghyd ac isadeiledd cludiant. Mae adfywio'r Stryd Fawr a denu mwy o fusnesau a siopau yno wedi bod yn flaenoriaeth ers amser maith, ac mae hyn wedi ei gyflawni'n rhannol gan Bartneriaeth Ogwen wrth iddynt brynu a rheoli adeiladau, law yn llaw â'r mentrau cefnogi busnesau diweddar.

Mae nifer y busnesau sydd wedi manteisio ar y Gronfa Benthyciad Canol Tref wedi bod yn siomedig o isel. Pan ddaw'r cynllun i ben ym mis Hydref 2019 bydd rhaid dychwelyd unrhyw danwariant i Lywodraeth Cymru. Hyd yma, mae'r gwaith adfer wedi bod ar raddfa eithaf bach ac yn achos y Gronfa Benthyciad Canol Tref, mae wedi bod yn ddibynnol ar fuddsoddiad gan fusnesau unigol. Dylid ystyried cynllun o welliannau canol tref mwy a thrawsffurfiol a allai fynd i'r afael ag adfer a dehongli adeiladau a nodweddion hanesyddol y dref.

Gallai Partneriaeth Ogwen arwain ar gynllun mwy uchelgeisiol o'r fath, ond fe all fod angen cefnogaeth i ddatblygu cynllun a sicrhau'r arian. Dylid ymchwilio hyn ymhellach gyda Phartneriaeth Ogwen.

Yn ôl y sôn, nid yw perchenogion busnesau yn orawyddus i fuddsoddi eu harian yn eu hadeiladau ac felly mae gwelliannau i'r Stryd Fawr wedi oedi. Rydym yn argymell y dylid gwneud y budd o fuddsoddi yn glir i'r perchnogion (a hefyd terfyn amser y Gronfa Benthyciad Canol Tref) a dylid ymchwilio ffyrdd eraill o gymell buddsoddiad. Efallai y byddai'n ddoeth cynnal ymgynghoriad i weld pam nad yw'r perchnogion busnesau wedi manteisio ar y benthyciad er mwyn gweld a oes ffyrdd eraill o ysgogi buddsoddiad a chynnig cefnogaeth os bydd angen.

Dylid ystyried cyfleoedd i ddefnyddio siopau gwag fel siopau dros dro (‘pop up’) ar gyfer gweithgareddau/digwyddiadau/cyfleoedd manwerthu yn arbennig yn ystod misoedd yr haf er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr ac i fywiogi’r Stryd Fawr.

Yn amlwg mae’r prinder amwynderau i ymwelwyr yn cyfrannu at ddirywiad canol y dref. Byddai gallu cynnig mwy o ddewis o gaffis a bwytai (o bosib rhai pris canolig ac uwch) ac annog y rhai presennol i ymestyn eu horiau agor i gynnwys gyda’r nos a’r penwythnos yn denu pobl i’r dref/eu hannog i aros yno ac yn cyfrannu at y bywiogrwydd yn gyffredinol.

Dehongli hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol y dref

Ychydig o ddehongli sydd o hanes cymdeithasol, diwylliannol a diwydiannol y dref. Mae cyfleoedd i ddehongli yng nghanol y dref a dylid ystyried pa leoliadau fyddai orau i ddehongli treftadaeth y dref. Gall fod cyfle i gael mwy o ddehongli yn Zip World, ond ni fu unrhyw arwydd fod Zip World yn dymuno ehangu’r ddarpariaeth ddehongli gyfyngedig. Dylid ystyried hwn fel dewis serch hynny.

Mynegwyd yr angen am ganolfan/ofod dehongli yng nghanol y dref gan rai o’r sawl a holwyd, ond nid oedd yna farn unfrydol. Byddai angen meddwl o ddifrif am sut i redeg unrhyw safle a’i gynaliadwyedd yn y tymor hir.

Hefyd, mae’n amlwg fod cryn dipyn o ddeunydd dehongli am y dref sydd ddim ar gael neu yn hawdd cael mynediad iddo. Mae’r ddwy gymdeithas hanes yn cynnal eu cyfarfodydd ac yn cyhoeddi eu trafodion yn Gymraeg. Mae gwefan www.hanesdyffrynogwen.wordpress.com <http://www.hanesdyffrynogwen.wordpress.com> sydd yn llawn gwybodaeth am hanes lleol yn Gymraeg, ac felly ddim yn hygyrch i ymwelwyr gan fod y rhelyw yn ddi-gymraeg. Dylid cefnogi’r dulliau arloesol o ddehongli treftadaeth y dref, sydd yn cael eu hymchwilio ar hyn o bryd, er mwyn ehangu’r berthynas gyda threftadaeth y dref.

Dylid archwilio’r angen am gynnal ymchwil trylwyr o gelf llechen gerfiedig y dref er mwyn deall ei arwyddocâd hanesyddol a faint o’r deunydd sydd ar gael, yn enwedig o ystyried amlygrwydd Bethesda fel canolbwynt hanesyddol a chyfoes i’r ffurf gelfyddydol hon. Hefyd dylid ymchwilio’r posibilrwydd o gynnal prosiect dogfennu archifol. Mae’r posibilrwydd y gallai Siop Ogwen/Neuadd Ogwen ddarparu gofod arddangos parhaol fel rhan o gynlluniau ehangach Cwmni Tabernacl i ail-ddatblygu’r cyfleusterau yn Neuadd Ogwen wrthi’n cael ei ystyried.

Dylid ystyried y cynlluniau hyn yng nghyd-destun cyfraniad pwysig celf llechen gerfiedig i hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol Bethesda, y diddordeb cyffredinol mewn Celf Llechen a amlygwyd trwy brosiectau diweddar ac arddangosfeydd o bwys, a’r gallu i ofod dehongli ddod ag amrywiaeth i’r hyn sydd gan ganol y dref i’w gynnig i ymwelwyr.

Amgylchedd adeiledig hanesyddol

Mae nifer o adeiladau arwyddocaol a nodweddion adeiledig sydd yn haeddu sylw pellach o safbwynt adnewyddu, ail-ddefnyddio a photensial adfywio. Mae mwy o wybodaeth ac asesiad cychwynnol, yn ddibynnol ar drafodaeth bellach gyda’r mudiadau cadwraeth perthnasol a swyddogion, yn yr Astudiaeth o’r Amgylchedd Adeiledd Hanesyddol (Atodiad 3).

Yn sgil adolygiad o safleoedd treftadaeth wedi'u gwarchod (h.y. wedi eu rhestru neu wedi eu cofrestru), a'r rhai sydd heb eu gwarchod hyd yma, mae nifer o ddarpar brosiectau allweddol wedi dod i'r amlwg.

Nid y safleoedd mwyaf arwyddocaol yw'r rhain o reidrwydd, ond maent yn cydbwyso arwyddocâd (yng nghyd-destun y diwydiant llechi) gyda'r potensial i gyfrannu at adfywio cymunedol sylweddol. Manylir ar y rhain yn Adran 11/Yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol ac yn y Cynllun Gweithredu atodol.

Dylid ymchwilio'r opsiynau ar gyfer gwarchod, adfer ac ail-gyflwyno rhai o nodweddion hanesyddol Rhes Ogwen, a'r adeiladau eu hunain, gan roi ystyriaeth benodol i'w leoliad ger glan yr afon a'r posibiliadau i greu ffyrdd newydd i gael mynediad i'r afon. Dylai hyn fod yn rhan o gynllun grant penodol ehangach ar gyfer gwella adeiladau hanesyddol allweddol ar hyd y Stryd Fawr.

Mae Capel Bethania yn adeilad allweddol ger y fynedfa i'r dref, ac sy'n Radd II rhestredig. Mae'n cynnig cyfle pwysig i adfywio'r ardal adwy'r dref. Argymhellir cynnal gwerthusiad opsiynau.

Rydym yn argymell y dylid archwilio'r opsiynau i adnewyddu hen adeiladau'r chwarel (Tŷ Tyrbin a Gweithdai'r Felin Fawr) gyda'r bwriad o ddehongli'r adeiladau a'u straeon a hanes y chwarel, neu eu defnyddio at ddibenion dehongli cyffredinol.

Dylid edrych ar yr opsiynau ar gyfer gwarchod Fferm Coetmor a Chae'r Berllan gyda'r bwriad o ganfod defnydd cynaliadwy tymor hir. Mae'r adeiladau hyn, sydd ymhlith y cynharaf yn y dref, o arwyddocâd treftadaeth arbennig.

<u>Cyfleusterau i ymwelwyr, a thrafnidiaeth ac isadeiledd</u>

Mae yna deimlad clir nad yw'r amrywiol brosiectau i hyrwyddo Bethesda fel cyrchfan twristiaeth wedi llwyddo; cynigwyd nifer o resymau, gan gynnwys dirywiad canol y dref, eiddo gwag a diffyg llefydd parcio.

Mae'n amlwg fod angen gwella'r cyfleusterau i ymwelwyr yng nghanol y dref. Mae ymwelwyr yn teithio i Fangor ar gyfer gweithgareddau hamdden ac adloniant, yn arbennig gyda'r nos ac ar y penwythnos, ac o ganlyniad mae Bethesda yn colli cyfleoedd i greu incwm. Amlygir hyn ym mhrinder yr adolygiadau gan ymwelwyr a diffyg adolygiadau o Fethesda ei hun.

Wrth gwrs mae Zip World (lle mae caffi/ bar ac ardal wylio banoramig) yn cystadlu am ymwelwyr yn ystod y dydd, ond byddai darpariaeth bwyd a diod gyda'r nos yn amrywio'r cynnig i ymwelwyr. Mae'r cyfle i gysylltu'r dref gyda Zip World ar hyd llwybr glan yr afon wedi ei adnabod a byddai hyn yn annog ymwelwyr Zip World i ymweld â Bethesda, yn enwedig os byddai gwell darpariaeth yn y dref i ymwelwyr.

Dylid ymchwilio'r potensial i agor ardal glan yr afon a chysylltu'r dref a'r afon. Byddai hyn yn creu llwybr amgen i gerddwyr (yn hytrach na dilyn traffig trwm y Stryd Fawr) a phwysleisio arwyddocâd pensaernïol Rhes Ogwen, yn creu cyswllt rhwng yr amgylchedd naturiol a'r dref, ac yn cynyddu ei dengarwch ac yn gwella ei hamgylchedd yn gyffredinol.

Mae cyfleoedd newydd sylweddol i greu incwm o dwristiaeth, yn enwedig yn sgil yr enwebiad am Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, a rhaid annog busnesau ym Methesda i ymateb i'r cyfleoedd hyn a manteisio arnynt.

Mae'r isadeiledd cludiant cyhoeddus yn gyfyngedig. Bysiau yw'r unig gludiant cyhoeddus a dim ond gwasanaeth i Fangor sydd ar gael, a hynny yn ystod y dydd. Mae Partneriaeth Ogwen yn ymchwilio'r posibilrwydd o gyflwyno gwasanaeth bws gwennol, drydanol, i gerddwyr/dringwyr i'w hebrwng o'r dref i ben draw Dyffryn Ogwen. Byddai hyn yn helpu i leddfu'r tagfeydd ym Mwthyn Ogwen ar adegau brig ac yn dod â defnyddwyr i'r dref. Hefyd, mae'r potensial i ddefnyddio'r bws i ddiwallu anghenion gwasanaeth drafnidiaeth gymunedol, megis gwasanaeth cludo i'r ysbyty, wedi ei adnabod ac fe argymhellwn y dylid trefnu'r gwasanaeth hwn yn ofalus, er mwyn sicrhau fod y disgwyliadau yn realistig.

Cefnogi a hyrwyddo busnesau lleol

Mae Fforwm Busnes Bethesda yn brosiect cymharol newydd sy'n rhoi blaenoriaeth i ddatblygu cynllun diwifr cymunedol er mwyn darparu rhwydwaith diwifr i ymwelwyr a chwsmeriaid y Stryd Fawr. Byddai hyn hefyd yn galluogi i strategaeth farchnata ar y cyd gael ei datblygu, a darparu adnoddau dehongli, creu presenoldeb newydd yn y cyfryngau cymdeithasol a marchnata ar-lein, gyda chynorthwyydd marchnata yn cydlynu'r cyfan.

Adnabuwyd nifer o wahanol ffyrdd o ddenu mwy o ymwelwyr i'r dref a chynyddu niferoedd, a fyddai'n cefnogi busnesau lleol. Maent yn cynnwys y gwasanaeth bws gwennol, gofod dehongli/arddangos, ac ail-gyfeirio pobl o gwmpas y dref.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae Bethesda wedi'i sefydlu ei hun fel canolfan lle gwireddir prosiectau amgylcheddol cynaliadwy ac o'r oherwydd wedi cael enw da am gynaliadwyedd. Dylid parhau â hyn. Yn gyntaf, mae'n sicrhau fod sylfaen gynaliadwy i weithgaredd datblygu cymunedol ac adfywio'r dref; ac yn ail, mae'n dyrchafu'r dref i 'statws arfer da', ac felly gellid ei defnyddio fel enghraifft i drefi eraill.

## 14 Ffynonellau ariannu posib

Rydym wedi adnabod y ffynonellau ariannu posib isod. Manylir ar y ffynonellau hyn ymhellach yn y ddogfen ariannu atodol (ynghyd â ffynonellau eraill llai), a byddwn yn eu hystyried wrth ddatblygu'r prosiectau arfaethedig:

- Cais Twf Gogledd Cymru
- Cronfa Datblygu Cymunedol Gwledig
- Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS)/Cronfa Busnesau Bach a Micro

- Datblygu Cynllun Rhodd Ymwelwyr

  Arian Loteri:
  - Gwobrau i Bawb y Loteri Genedlaethol
  - Pawb a'i Le (Grantiau Canolig a Mawr)
  - Rhaglen Wledig Rownd 2
  - Cronfa Treftadaeth (CTL gynt)

- Rhaglen Datblygu Gwledig/Arloesi Gwynedd Wledig (LEADER)
- Y Gronfa Dreftadaeth Bensaernïol
- Rhaglen Cartrefi Gwag
- Grantiau Cymorth Cartrefi Gwag
- Adfywio Llywodraeth Cymru
- Rhaglen Adnoddau Cymunedol/Llywodraeth Cymru
- Economi Sylfaenol/Llywodraeth Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cronfa Benthyciad Canol Tref Bethesda

Mae'r prosiectau hyn wedi eu hadnabod yn sgil ymgynghoriad gyda'r gymuned leol a budd-ddeiliaid. Ond bydd y gwaith o'u gweithredu a'u blaenoriaethu, fel dengys y Cynllun Gweithredu, yn ddibynnol ar adnabod corff arweiniol addas a sicrhau'r arian i ymgymryd â'r gorchwylion a adnabuwyd. Bydd y Cynllun Gweithredu'n cael ei adolygu'r flynyddol gan Gyngor Gwynedd a'r budd-ddeiliaid allweddol.

**Atodiad 1 Rhestr unigolion /mudiadau'r ymgynghoriad**

- Partneriaeth Ogwen
- Ynni Ogwen
- Cyfeillion y Ddaear
- Fforwm Busnes Bethesda
- Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen
- Gwefan Hanes Dyffryn Ogwen
- Swyddog Adfywio Ardal, Cyngor Gwynedd
- Cyd Ynni
- Cwmni Tabernacl/Neuadd Ogwen
- Caban Cysgu Gerlan

- Marchnad Ogwen
- Welsh Slate/ Breedon
- Clwb Rygbi Bethesda
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol/Castell Penrhyn
- Clwb Camera Dyffryn Ogwen
- Gŵyl Afon Ogwen
- John Llywelyn, Hanesydd
- Siân Owen, Artist
- Lisa Hudson, Artist

**Atodiad 2: Sectorau cyflogaeth**

Dengys y tabl isod (ffynhonnell: data cyfrifiad, 2011) y sectorau lle cyflogir aelodau'r gymuned sy'n weithgar yn economaidd. Ar y cyfan, mae'r cyfrannau'n debyg ar draws y sectorau, serch hynny mae rhai gwahaniaethau nodedig. Mae cyflogaeth yn y sector mwyngloddio, chwarela, ynni a dŵr yn uwch yn Ogwen nac yn Gerlan; yng Ngerlan mae cyflogaeth yn uwch yn y sectorau gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn nac yn Ogwen.

Y sectorau sydd yn cyflogi'r cyfrannau uchaf (dros 10%) yw addysg, iechyd, a gwaith cymdeithasol, cyfanwerthu, manwerthu, ac adeiladu. Y sectorau isaf (o dan 3%) yw amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, a phroffesiynol, gwyddonol a thechnegol.

| **Diwydiant/Cyflogaeth** | **Gerlan** | **Ogwen** | **Cyfartaledd (o'r ddwy ward)** |
|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota | 2.2% | 1.2% | 1.7% |
| Mwyngloddio, Chwarela, Ynni a Dŵr | 2.8% | 5.4% | 4.1% |
| Cynhyrchu | 5.9% | 5.8% | 5.9% |
| Adeiladu | 10.9% | 10.3% | 10.6% |
| Cyfanwerthu a manwerthu | 11.6% | 13.9% | 12.75% |
| Trafnidiaeth a Storio | 2.7% | 3.7% | 3.2% |
| Llety a Gwasanaethau Bwyd | 4.6% | 5.6% | 5.1% |
| Cyfathrebu, Arian ac Eiddo | 3.8% | 3.7% | 3.75% |
| Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol | 3.0% | 2.8% | 2.9% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Gweinyddol a Chefnogaeth | 3.3% | 3.1% | 3.2% |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn | 7.9% | 5.1% | 6.5% |
| Addysg | 19.5% | 17.9% | 18.7% |
| Iechyd a Gofal | 15.8% | 17.7% | 16.75% |
| Eraill | 6.0% | 3.7% | 4.85% |

**<u>Atodiad 3 : Astudiaeth o Gyfleoedd yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol [Dalenni 1 – 7]</u>**